YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

EBRILL, 1870.

UGAIN O OFYNIADAU I DRINDODWYR,

YN NGHYDAG ATEBION O'R YSGRYTHYR.

GOFYNIAD I. Ai un Bôd neu Berson Goruchel yw Duw, neu ynte a ydyw yn rhagor nag un?

ATEB. Na fydded i ti dduwiau ereill ger fy mron i. Exod. xx. 3.
Clyw, O Israel; yr ARGLWYDD ein Duw ni sydd un ARGLWYDD. Deut. vi. 4; gwel hefyd Deut. iv. 35, 39; Marc xii. 29.
I bwy gan hyny y'm cyffelybwch ac y'm cystedlir, medd y Sanct? Esay xl. 25; gwel hefyd Esay xlvi. 5, 9, a xliv. 8.
Myfi ydwyf yr ARGLWYDD, ac nid arall, nid oes Duw ond myfi. Esay xlvi. 5; Salm lxxxv. 10.
Y dydd hwnw y bydd un ARGLWYDD, a'i enw yn un. Zech. xiv. 9.
Paham y gelwi fi yn dda? nid da neb ond un, sef Duw. Mat. xix. 17.
Nid oes un Duw arall ond un. 1 Cor. viii. 4.
Canys un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu. 1 Tim. ii. 5.
Un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll. Eph. iv. 6.

CASGLIAD. Y mae yn amlwg oddiwrth yr ymadroddion hyn na feddyliodd awdwyr yr Hen Destament a'r Newydd fod Duw yn rhagor nag un Bôd neu Berson. Ni wyddent hwy ddim am yr athrawiaeth sydd yn dysgu fod yn y Duwdod dri pherson gogyfuwch. Athrawiaeth ddyeithr i'r Beibl ydyw hon, er hyny y mae yn athrawiaeth y mwyafrif o grefyddwyr Cristionogol! Y mae hyn yn ffaith alarus i feddwl am dani.

GOFYNIAD II. Pwy yw yr un Bôd neu y Person Goruchaf, neu wrth ba enw yr hynodir ef yn gyffredin yn yr Ysgrythyrau?

ATEB. Eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Mat. v. 16, 45, a x. 20.
I ti yr wyf yn diolch, O Dad, ARGLWYDD nef a daear. Mat. xi. 25.
Fel y galloch yn unfryd, o un genau, ogoneddu Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Rhuf. xv. 6; 2 Cor. i. 3.
Eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad. 1 Cor. viii. 6.
Ag ef yr ydym yn bendithio Duw a'r Tad. Iago iii. 9.

CASGLIAD. Oddiwrth yr ymadroddion hyn yr ydym yn rhwym o gredu mai yr unig Fôd yn y greadigaeth sydd Dduw, yn yr ystyr mwyaf goruchel o'r gair, yw Tad ein *Harglwydd* Iesu Grist; ei Dad ef a'n Tad ninau, ei Dduw ef a'n Duw ninau.

GOFYNIAD III. Ai y Duw Goruchel oedd Iesu Grist, ai nad ê?

ATEB. Wele fy ngwasanaethwr yr hwn a ddewisais. Mat. xii. 18.

Hwythau a ddywedasant wrtho, Y pethau yn nghylch Iesu o Nazareth, yr hwn oedd wr o brophwyd, galluog mewn gweithred a gair ger bron Duw a'r holl bobl. Luc xxiv. 19.

Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi brophwyd o'ch brodyr, megys myfi. Act. iii. 22.

Ac yr oedd efe yn cilio o'r neilldu yn y diffaethwch, ac yn gweddio. Luc v. 16, a ix. 28; Mat. xxvi. 39.

Yr oedd efe yn gweddio ei hunan. Luc ix. 18, a vi. 12.

Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod; ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw. Rhuf. vi. 10.

Ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roddi i chwi Yspryd doethineb a datguddiad. Eph. i. 17; 2 Cor. xi. 31; 1 Petr i. 3.

Yr hwn (Iesu) sydd ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd ef, megys ag y bu Moses yn ei holl dŷ ef. Heb. iii. 2.

Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd. Heb. v. 8; Ioan xii. 49, a xv. 10.

Yna y Mab ei hun a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll. 1 Cor. xv. 28.

CASGLIAD. Ar awdurdod yr ymadroddion hyn y mae genym hawl i sylwi na all yr hwn sydd yn *was* ac yn *brophwyd* Duw, yr hwn sydd yn *gweddio* ar, ac yn *rhoddi diolch* i Dduw, fod ei hun y gwir Dduw. A *all y gwir a'r Goruchel Dduw weddio arno ei hun?* Pa synwyr all fod yn hyny? "Ei natur ddynol oedd yn gweddio ar ei natur ddwyfol," medd rhyw un. Nid oes sôn yn yr Ysgrythyrau am ddwy natur yn Nghrist.

GOFYNIAD IV. A ddarfu i'r Iesu erioed osod ei hun allan fel y Duw Goruchaf?

ATEB. Eithr eistedd ar fy llaw ddehau ac ar fy llaw aswy, nid eiddof fi ei roddi; ond i'r sawl y darparwyd gan fy Nhad. Mat. xx. 23.

Y gweithredoedd yr ydwyf fi yn eu gwneuthur sydd yn tystiolaethu mai y Tad a'm hanfonodd i. Ioan v. 36.

Fel y cedwais i orchymynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. Ioan xv. 10.

Mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur. Ioan xvii. 4.

Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, a'm Duw i a'ch Duw chwithau. Ioan xx. 17.

Myfi a ddaethum yn enw fy Nhad. Ioan v. 43.

Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy Nhad. Ioan x. 18.

Nid o honof fy hun y daethum i, ond efe a'm hanfonodd i. Ioan viii. 42.

Am hyny y pethau yr wyf fi yn eu llefaru, fel y dywedodd y Tad wrthyf, felly yr wyf yn llefaru. Ioan xii. 50, a x. 36.

Megys y gorchymynodd y Tad i mi, felly yr wyf yn gwneuthur. Ioan xiv. 31.

Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, a gorphen ei waith ef. Ioan iv. 34.

CASGLIAD. Ymddengys oddiwrth yr ymadroddion hyn fod yr Iesu yn gosod ei hun allan fel un *wedi ei ddanfon gan y Tad*—fel *wedi derbyn* ei orchymynion, ac *yn gwneuthur ei ewyllys:* ni all fod, gan hyny, mai efe yw y Duw Goruchaf. A all y Bôd Anfeidrol dderbyn gorchymynion oddiwrth un arall?

GOFYNIAD V. Ai Iesu, Mab Mair, oedd y Bôd Hollwybodol? A wyddai efe bob peth wedi myned heibio, yn bresenol, ac yn ddyfodol?

ATEB. Eithr am y dydd hwnw a'r awr ni ŵyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad. Marc xiii. 32.

Nid wyf yn eich galw mwyach yn weision; oblegid y gwas ni ŵyr beth mae ei

arglwydd yn wneuthur: ond mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion; oblegid pob peth a'r a *glywais* gan fy Nhad a hyspysais i chwi. Ioan xv. 15.

Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn *ei feddiant ei hun.* Act. i. 7.

Datguddiad Iesu Grist, yr hwn a *roddes* Duw iddo ef, i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder. Dat. i. 1.

Casgliad. Yn gymaint ag na wyddai yr Iesu pryd y byddai dydd y farn, mae ei wybodaeth yn feidrol; nid efe, gan hyny, oedd yr Hollwybodol Dduw, oblegid mae efe yn gwybod pob peth yn yr ystyr helaethaf.

Gofyniad VI. A oedd yr Iesu, Mab Mair, yn hollalluog? A ydoedd yn meddu ar bob gallu yn annibynol ar y Tad?

Ateb. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono ei hunan. Ioan v. 30.

Nid allaf fi wneuthur dim o honof fy hunan. Ioan v. 30.

Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Mat. xxviii. 18.

Casgliad. Datgan yr Iesu, yn yr ymadroddion hyn, na feddai un gallu ond yr hyn a roddwyd iddo gan y Tad. Nid efe, gan hyny, oedd y Duw Hollalluog, yr hwn a fedd o hono ei hun allu diderfyn ac *anneilliedig.*

Gofyniad VII. A oedd yr Iesu yn *anghyfnewidiol* mewn corff a meddwl? A ydoedd felly mewn doethineb, gwybodaeth, gallu, awdurdod, ac mewn llawenydd?

Ateb. Cafodd yr Iesu "ei demtio gan ddiafol." Mat. iv. 1.

Wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud â ninau, eto heb bechod. Heb. iv. 15.

Pan welodd efe y ddinas, efe a wylodd drosti. Luc xix. 41.

Ac efe mewn ymdrech meddwl a weddiodd yn ddyfalach. Luc xxii. 44.

Ac angel o'r nef a ymddangosodd iddo, yn ei nerthu ef. Luc xxii. 43.

A'r bachgen a gynnyddodd ac a gryfhaodd yn yr yspryd. Luc ii. 40.

A'r Iesu a gynnyddodd mewn doethineb, a chorffolaeth, a ffafr gyda Duw a dynion. Luc ii. 52.

Efe a offrymodd weddiau ac erfyniau at yr hwn oedd yn abl i'w achub ef oddiwrth farwolaeth. Heb. v. 7.

Yr hwn, yn lle y llawenydd a roddwyd iddo, a ddyoddefodd y groes. Heb. xii. 2.

Efe a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd. Heb. v. 8.

Casgliad. "Myfi yw yr Arglwydd, ni'm *newidir,*" medd Duw (Mal. iii. 6). Ond aeth yr Iesu trwy lawer o gyfnewidiadau, ac o'r diwedd dyoddefodd angeu. Ni all, gan hyny, fod yn Dduw *anghyfnewidiol.*

Gofyniad VIII. A wnaeth yr Iesu wyrthiau trwy ei allu ei hun, neu ynte trwy allu y Tad?

Ateb. Rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd. Ioan xvii. 2.

Iesu o Nazareth, gwr profedig gan Dduw yn eich plith chwi, trwy nerthoedd, &c., y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef. Act. ii. 22.

Y modd yr eneiniodd Duw Iesu o Nazareth â'r Yspryd Glân ac â nerth. Act. x. 38.

Canys er ei groeshoelio ef o ran gwendid, eto byw ydyw trwy nerth Duw. 2 Cor. xiii. 4.

Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hyny yn tystiolaethu am danaf fi. Ioan x. 25.

Ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Ioan xiv. 10.

Casgliad. Oddiwrth yr ymadroddion hyn deallwn fod yr Iesu yn gwneuthur gwyrthiau, nid trwy unrhyw allu a feddai o hono ei hunan, ond trwy allu a dderbyniodd gan y Tad, neu trwy yni y Tad yn aros ynddo, yr hyn a ddengys yn eglur ei fod yn ddibynol ar y Tad yn mhob peth a wnaeth. Nid dyma nodweddiad Teyrn annibynol y bydysawd.

Gofyniad IX. A ydoedd *gwybodaeth* yr Arglwydd Iesu yn gynenid ac anneilliedig, neu ynte a roddwyd hi iddo gan un goruwch?

Ateb. Canys y Tad sydd yn caru y Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae efe yn ei wneuthur. Ioan v. 20.
Y pethau a glywais i ganddo, y rhai hyny yr ydwyf fi yn eu dywedyd i'r byd. Ioan viii. 26.
Y gair yr ydych yn glywed, nid eiddof fi ydyw, ond eiddo y Tad a'm hanfonodd i. Ioan xiv. 24.
Canys y geiriau a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy. Ioan xvii. 8.
Megys y dysgodd fy Nhad fi, yr ydwyf yn llefaru y pethau hyn. Ioan viii. 28.

Casgliad. Oddiwrth yr ymadroddion hyn y deallwn i Grist dderbyn ei wybodaeth oddiwrth y Tad. Ni all, gan hyny, mai efe yw y Bôd mawr, gwybodaeth yr hwn sydd yn anneilliedig ac yn annibynol.

Gofyniad X. A oedd yr *awdurdod* a ddefnyddiai yr Iesu yn eiddo ei hun, neu ynte ai derbyn a wnaeth oddiwrth Fôd oedd fwy nag ef?

Ater. Ac yr wyf yn ordeinio i chwi deyrnas, megys yr ordeiniodd fy Nhad i minau. Luc xxii. 29.
Canys y Tad nid yw yn barnu neb; eithr efe a roddes bob barn i'r Mab. Ioan v. 22.
Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad. Luc x. 22.
Iddo ef (sef i Grist) y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd. Luc i. 32.
Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef (Crist). Col. i. 19.

Casgliad. Ni all yr hwn sydd yn derbyn ei awdurdod oddiwrth arall fod yn gyfuwch âg ef. Derbyniodd yr Iesu ei *awdurdod*, ei anrhydedd, a'i ogoniant gan y Tad; mae yn canlyn ei fod ef yn îs na'r Tad, ac a ddylai gael ei ystyried felly.

Gofyniad XI. A oedd yr Iesu yn fôd gwahanol i'r Tad? ac a oedd meddwl ac ewyllys yr Iesu ar wahan i feddwl ac ewyllys y Tad?

Ateb. Eithr nid y peth yr ydwyf fi yn ei ewyllysio, ond y peth yr ydwyt ti. Marc xiv. 36.
Y mae hefyd yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mai gwir yw tystiolaeth dau ddyn. Myfi yw yr hwn sydd yn tystiolaethu am danaf fy hun; ac y mae y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, yn tystiolaethu am danaf fi. Ioan viii. 17, 18.
Nid wyf yn ceisio fy ewyllys fy hunan, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i. Ioan v. 30.
Canys mi a ddisgynais o'r nef, nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys yr hwn a'm hanfonodd. Ioan vi. 38.

Casgliad. Oddiwrth yr ymadroddion hyn y mae yn amlwg mai nid yr un oedd meddwl ac ewyllys yr Iesu â meddwl ac ewyllys y Tad; nis gall, gan hyny, mai yr un person oeddynt. Os oeddynt yn gyfuwch yn mhob ystyr, rhaid fod pob un o honynt yn Dduw, yr hyn sydd yn ddinystriol i egwyddor sylfaenol crefydd, sef Undod Duw.

Gofyniad XII. A oedd y duwdod a breswyliai yn yr Iesu, a thrwy yr hwn y gwnai weithredoedd nerthol, yn dduwdod gwahanol a elwid y Mab, neu ynte ai duwdod y Tad oedd, a'r Tad yn unig?

Ateb. Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad *yr hwn sydd yn aros ynof*, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Ioan xiv. 10.
Os carwn ni ein gilydd, y mae Duw yn trigo ynom, ac y mae ei gariad ef yn berffaith ynom. 1 Ioan iv. 12.
Pwy bynag a gyffeso fod Iesu yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw. 1 Ioan iv. 15.

Casgliad. Pwy bynag a feddylia mai yr un Bôd oedd Crist â'r Tad,

am fod y Tad yn aros ynddo, raid hefyd gredu mai un Bôd yw Duw â phawb credinwyr, oblegid dywedir fod Duw yn *trigo ynddynt.*

Gofyniad XIII. Ai personol oedd yr undod rhwng Duw a Christ, neu ynte ai undod bwriad, tuedd, a gweithrediad ydoedd?

Ateb. Myfi a'r Tad un ydym. Ioan x. 30.
Y Tad santeiddiol, cadw hwynt trwy dy enw, y rhai a roddaist i mi; fel y byddont un, megys ninau. Fel y byddont oll yn un; megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minau ynot ti; fel y byddont hwythau un ynom ni: fel y credo y byd mai tydi a'm hanfonaist i. A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un, megys yr ydym ni yn un. Ioan xvii. 11, 21, 22.
Eithr yr hwn sydd yn planu, a'r hwn sydd yn dyfrhau, un ydynt. 1 Cor. iii. 8.

Casgliad. Os cymherir yr adnodau hyn â'u gilydd, mae yn amlwg mai nid undod person oedd rhwng Duw a Christ, ond undod bwriad, tuedd, a gweithrediad, oblegid dywedir fod yr un undod hefyd rhwng credinwyr â Duw. Am hyny, dywedir fod Paul ac Apolos yn un, *nid un person*, ond un yn nyben mawr eu cenadwri, ac yn eu hymdrech i'w chyflawni.

Gofyniad XIV. A ydyw Crist yn mhob ystyr yn ogyfuwch â'r Tad? neu, a yw y Tad yn fwy nag ef?

Ateb. Canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi. Ioan xiv. 28.
Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb. Ioan x. 29.
Eithr mi a fynwn i chwi wybod, mai pen pob gwr yw Crist, * * * a phen Crist yw Duw. 1 Cor. xi. 3.
Un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynoch oll. Eph. iv. 6.

Casgliad. Yma cawn, ar dystiolaeth yr Iesu a'r Apostol Paul, mai y Tad yw pen Crist, ei fod ef yn fwy na Christ, a'i fod goruwch oll; o ganlyniad, y mae'r Iesu yn îs na'r Tad, ac am hyny nid efe yw y gwir Dduw.

Gofyniad XV. A oedd yr Iesu yn meddu ar ddwy natur—natur Duw a natur dyn, fel y gellid dywedyd gyda phriodolder ei fod yn gynwysedig o ddwy natur—natur ddynol a natur ddwyfol?

Ateb. Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y gyfraith a'r prophwydi am dano, Iesu o Nazareth, mab Joseph. Ioan i. 45.
Iesu o Nazareth, gwr profedig gan Dduw. Act. iij. 22.
Canys un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu. 1 Tim. ii. 5.
Am ba achos y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr. Heb. ii. 17.

Casgliad. Mae y fath ymadroddion â'r rhai hyn yn dangos yn ddiamheuol fod yr Iesu yn mhob peth yn gyffelyb o ran ei natur i'w frodyr. Os oedd efe yn meddu natur ddwyfol, mae yn sicr fod pawb credinwyr yn meddu yr un fath natur. Nid oes dim sail, gan hyny, i'r dyb fod dwy natur gan Grist,—un ddynol ac un ddwyfol. Nid oes gymaint ag un adnod i'w chael o ddechreu Genesis i ddiwedd Datguddiad oddiwrth yr hon y gellir casglu fod dwy natur gan Grist. Dyfais yw y dyb i symud anhawsderau i brofi y Drindod, a dylai pob dyn diragfarn wrthod y fath gellwair â gair Duw. Mae y cyfryw a ddefnyddiant y ddyfais yn trafod gair Duw yn dwyllodrus, er mwyn cynnal credo o ddechreuad paganaidd.

Gofyniad XVI. A oedd y gwir Dduw yn wrthddrych i'w ganfod, neu a fydd efe y fath wrthddrych?

Ateb. Ni welodd neb Dduw erioed. Ioan i. 18.

Ac i'r Brenin tragywyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth. 1 Tim. i. 17.
Yr hwn nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled. 1 Tim. vi. 16.
Canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd? 1 Ioan iv. 20.
I'r rhai hefyd yr ymddangosodd efe (Iesu) wedi iddo ddyoddef, * * * gan fod yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod. Act. i. 3.

Casgliad. Yn gymaint ag mai yspryd yw y gwir Dduw, ac na fu erioed yn *wrthddrych i'w ganfod;* ac yn gymaint ag i gannoedd *weled* yr Iesu, ac y bydd iddo *eto gael ei weled,* mae yn canlyn tu hwnt i amheuaeth mai nid efe oedd y gwir Dduw.

Gofyniad XVII. Pwy yw gwir wrthddrych addoliad dwyfol—y Tad, neu y Mab, neu bob un o'r ddau?

Ateb. Am hyny gweddiwch chwi fel hyn: Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd. Mat. vi. 9.
Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn yspryd a gwirionedd. Ioan iv. 23.
Ac wedi cau dy ddrws, gweddia ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel. Mat. vi 6.
A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi ddyddanydd arall. Ioan xiv. 16.
Efe a syrthiodd ar ei wyneb, gan weddio a dywedyd, Fy Nhad, os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio oddi wrthyf. Mat. xxvi. 39.

Casgliad. Ymddengys, oddiwrth yr adnodau hyn a llawer ereill, fod y cyfryw a addolant y Tad yn unig, yn ufuddhau i orchymyn ac yn dilyn siampl yr Iesu, ac yn sicr nis gall y cyfryw fod yn cyfeiliorni; ond os ydynt yn cyfeiliorni, mae yr Iesu yn gyfeiliornus.

Gofyniad XVIII. A ydyw yn iawn ac yn briodol *yn awr* i gyflwyno gweddiau i'r Iesu?

Ateb. Ar y dydd hwnw (wedi iddo adgyfodi) ni ofynwch ddim i mi. Pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi. Ioan xvi. 23.
Y dydd hwnw y gofynwch yn fy enw (nid i mi): ac nid wyf yn dywedyd i chwi, y gweddiaf fi ar y Tad trosoch: canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi. Ioan xvi. 26, 27.

Casgliad. Mae yr Iesu yma yn benodol yn gwarafun i ddeisyfiadau gael eu cyflwyno iddo ef ar ol ei adgyfodiad o feirw. I'r Tad y mae iddynt gael eu gwneyd yn ei enw. Bydded, gan hyny, i'r cyfryw ystyried, ag ydynt yn cyflwyno eu gweddiau i Iesu Grist, eu bod yn gwneyd hyny yn hollol groes i'w gyfarwyddiad ef ei hun.

Gofyniad XIX. Beth oedd y gyffes ffydd yn nghylch Iesu Grist a ofynid oddiwrth y Cristionogion cyntaf, ac a wneid ganddynt?

Ateb. *Gan Martha.* Ti yw Crist, Mab Duw, yr hwn sydd ar ddyfod i'r byd. Ioan xi. 27.
Gan yr Eunuch a fedyddiwyd gan Philip. Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw. Act. viii. 37.
Gan Paul. Ac yn ebrwydd yn y synagogau efe a bregethodd Grist, mai efe yw Mab Duw. Act. ix. 20.
Gan Ioan. Pob un a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, o Dduw y ganed ef. 1 Ioan v. 1.

Casgliad. Oddiwrth hyn, deallwn mai yr unig gyffes oedd yn ofynol i wneyd dyn yn Gristion yn yr oes gyntaf oedd mai yr *Iesu oedd Mab Duw,* neu *y Crist.* Credwn, gan hyny, fod yr eglwysi a'r Cristionogion a ofynant gyffes helaethach a mwy neillduol oddiwrth y sawl a geisiant gymdeithas Gristionogol nag a ofynai Crist a'r apostolion, nid yn unig yn edliwio ar eu doethineb a'u daioni, ond hefyd yn trawsarglwyddiaethu ar gydwybodau eu brodyr, heb ganddynt un sail ysgrythyrol dros hyny.

Y mae hefyd y deilwng o sylw fod y cyfryw a ymddarostyngant i'r fath drawsarglwyddiaeth yn cydnabod meistriaid ereill mewn crefydd heblaw Crist.

Gofyniad XX. A ydyw cyffesiad Pedr mai yr Iesu yw y Crist, *Mab y Duw byw*, yn cynnwys rhagor na phe dywedasai, "Ti yw y Crist?"

Ateb. Ti yw y Crist, Mab y Duw byw. Mat. xvi. 16.
A Phedr a atebodd ac a ddywedodd wrtho, Ti yw y Crist. Marc viii. 29.
A Phedr gan ateb a ddywedodd, Crist Duw. Luc ix. 20.

Casgliad. Wrth gymharu yr Efengylwyr â'u gilydd, mae yn eglur mai yr un peth yw cydnabod mai *yr Iesu yw y Crist*, *Mab y Duw byw*, â chydnabod mai efe yw *y Crist*, neu *Crist Duw*.

Beth sydd yn canlyn oddiwrth yr addefiad fod yr Iesu yn cael ei alw yn *Fab Duw*, gyda golwg ar ei berson? Yn sicr mai *nid Duw* ydyw, ond ei fod yn ddyledus i Dduw am ei fodolaeth, ac am hyny yn ymddibynol arno, ac yn îs nag ef, o ran ei natur, ei berson, a'i swydd. Pwy bynag, gan hyny, sydd yn credu mai Mab Duw yw yr Iesu, ni all gredu, gydag un math o gysonder mai efe yw y Duw hwnw i'r hwn y mae yn Fab. Rhaid hefyd i'r hwn sydd yn credu mai yr Iesu oedd y gwir Dduw wadu mai *Mab Duw ydyw*, yr hyn a ddysgir i ni yn mhob man yn yr Ysgrythyrau.

TRAETHAWD AR IAWN DREULIO BOREU OES.

(Parhad o tudal. 296.)

Y mae credu mewn cynnydd a diwylliant moesol a meddyliol o'r pwys mwyaf i ddyn ieuanc. Y mae dyn yn agored i gynnydd a diwylliant tragywyddol. Hyn sydd yn cyfansoddi un gwahaniaeth hanfodol rhwng y byd meddyliol a'r byd materol. Y mae pob peth materol yn fuan yn cyrhaedd diwedd eu cynnydd. Y mae terfyn i gynnydd pob peth dacarol. Y mae teyrnasoedd ac ymherodraethau yn farwol fel eu sylfaenwyr. Pan gyrhaeddont ganolddydd eu gogoniant, yna dechreua eu haul fachludo. Y mae Babilon yn ei hadfeilion; y mae ei gwroniaid yn llwch; nid oes gysgod yn aros o'r gogoniant a ddysgleiriodd unwaith dros yr holl ddaear, na chareg i ddyweyd lle y gorphwys gweddillion meistr y byd. Ond nid oes derfyn ar allu cynnydd moesol a meddyliol dyn, na therfyn i yrfa enaid anfarwol. Y mae cyneddfau y meddwl yn alluog o ddadblygiad tragywyddol. Bydd y geiriau "nid amlygwyd eto beth a fyddwn," byth yn wirionedd am ddyn yn yr ystyr hon. Bydd y geiriau "nid amlygwyd eto," yn dysgleirio fel seren ar dalcen y byth-ddyfodol.

Y mae dylanwad gwirionedd o'r natur a nodwyd ar feddwl dyn ieuanc yn creu uchelgais *(ambition)* priodol yn ei enaid. Y mae pawb yn uchelfrydig mewn rhyw bethau. 'Fedr neb ymddyrchafu mewn bywyd ond y dyn uchelfrydig, awyddus. Mae y "*finalist*" yn myned yn wanach bob dydd; mae y "*progressionist*" yn cryfhau bob dydd ac yn mhob ymdrech. Nid bodau wedi dringo i'r orsedd trwy ryw un "*Herculean effort*," un ymdrech orchestol, yw tywysogion y byd meddyliol, ond rhai wedi ymddyrchafu trwy ymdrech a llafur parhaus. Bu y dderwen sydd wedi hèrio galluoedd elfenol natur am fil o flynyddoedd unwaith yn cysgu yn y fesen fach. Bu y person sydd yn sefyll ar binacl uwchaf gwybodaeth yn ngwlad anfarwoldeb unwaith yn faban egwan ar fynwes mam. Gall

pawb ei ganlyn. O flaen pawb y mae "drws wedi ei agoryd yn y nef," a llais yn dywedyd, "Dring i fyny yma."

Y mae yn anhebgorol angenrheidiol, er iawn dreulio boreu oes, i'r ieuanc i fyw dan ddylanwad y gwirionedd, gan mai yn yr adeg bwysig hòno mae dyn yn ffurfio elfenau ei gymeriad ac arferion ei fywyd. Nid yw y baban ond megys blaguryn y dyn. Y mae llinellau cymeriad y dyn i'w canfod yn y bachgen. Y mae hyn i'w briodoli yn fwyaf neillduol i'r ffaith fod dyn yn fwy agored i dderbyn dylanwadau ac argraffiadau yn moreu ei oes nag un adeg arall o'i fywyd, a'r arferion mae yn ffurfio yn tyfu yn gydweuedig â'i fodolaeth, ac yn dyfod yn rhyw ail-natur. Mae y meddwl ieuanc fel rhyw ddrych i adlewyrchu ac adlunio pob peth o'i gwmpas; neu fel yr aur toddedig yn derbyn delw ac argraff pob gwrthddrych ag y mae yn gyffwrdd. Mae y dylanwadau a'r argraffiadau mae dyn yn dderbyn yn moreu ei oes yn ymaflyd mor ddwfn yn ei natur, fel mai yn annhebyg, os nad yn anmhosibl, y bydd i unrhyw ddylanwadau ereill eu llwyr ddileu. Mae hyn yn dangos y pwysigrwydd mawr i ddyn ieuanc fod yn ofalus neillduol yn newisiad ei gyfeillion a'r personau mae yn edrych arnynt fel esamplau bywyd, yn newisiad ei lyfrau, yn ffurfiad ei ymarferiadau, ac yn meithriniad egwyddorion cyfiawn, rhinweddol, a haelionus.

Y mae dyn yn derbyn dylanwadau oddiwrth y personau y mae yn dyfod i gyfarfyddiad â hwynt, ac yn ymdebygoli iddynt heb yn wybod iddo. Y mae yn syrthio i'w harferion a'u hagweddau; y mae yn mabwysiadau eu tybiau, eu nwydau, ac hyd yn nod eu gwendidau, ac yn canlyn yr un yrfa fel pe buasai yn cael ei gyffroi a'i arwain gan yr un yspryd. Y mae yr egwyddor hon i'w chanfod yn gryf yn y plentyn. I hyn, ac nid i unrhyw achos anianyddol *(physical cause)*, y gellir priodoli y tebygolrwydd rhyfeddol a ganfyddir yn aml rhwng rhieni a'u plant; tebygolrwydd mor rhyfeddol yn y dymher a'r cymeriad ag yn y gwynebpryd.

Dywedir am ddysgyblion Plato a Socrates eu bod yn dwyn nodweddau meddyliol eu hathrawon. Mae yr egwyddor hon i'w chanfod yn eglur hefyd yn mywyd crefyddol dyn. Dywedir am yr eilunaddolwyr fod yn hawdd adnabod wrth ba allor y maent yn addoli—maent yn dwyn y nodweddau moesol a briodolir i'w heilun-dduwiau. Rhyfelwyr (*warriors*) yw addolwyr teml Mars, a meddwon yw coelgrefyddwyr teml Bacchus.

Gwirionedd pwysig mewn perthynas i fywyd dyn ydyw hwnw o eiddo Solomon,—"Yr hwn a rodia gyda doethion a fydd ddoeth." Y mae mwy o ddynion ieuainc wedi gwneyd llongddrylliad o'u cymeriad, o'u masnach, ac o'u bywyd, drwy gam-ddewisiad o'u cyfeillion na thrwy ddim arall.

Y mae yn naturiol iawn i ddyn ieuanc edrych ar rai personau fel cynlluniau (*models*) ac esamplau i'w hefelychu: dylai y personau hyny fod y rhai doethaf, y perffeithiaf yn mhob rhinwedd a daioni yn holl gylch ei adnabyddiaeth. Y mae dynion, wrth astudio y celfyddydau arddulliog (*imitative arts*), yn cymeryd y *model* goreu yn safon. Y mae y gwr uchelfrydig yn ysgol darluniaeth (*painting*) yn hoffi efrydu dan gysgod Raphael a Reubens; mae y cerddor ieuanc yn hoffi cadw cymdeithas barhaus â Handel a Mozart; yr ymgeisydd am ogoniant milwrol yn awyddus am ddrachtio yn helaeth o frwdfrydedd (*enthusiasm*) Cæsar neu Napoleon, ac y mae yn ceisio èu gosod o'i flaen yn ei freuddwydion

y dydd a'i weledigaethau y nos. Yr un modd gyda golwg ar y bywyd: y perffeithiaf ddylai fod yn *model*.

Nid ydym, mewn un modd, yn ystyried y dylai dyn ieuanc adael i ereill ffurfio a llunio ei fywyd, oblegid buasai hyny yn dinystrio ei hanfodaeth neillduol (*individuality*) a'i wreiddioldeb. Mae yr hwn nad yw, i raddau helaeth, yn hunan-ymddibynol, mewn rhyw ystyr, yn colli ei hunandeb mewn cymdeithas. Hyn, mewn gwirionedd, yw canolbwynt ei holl weithrediadau. Fel y mae yn anmhosibl bod cylch, neu amgylchedd (*circle*), heb ganolbwynt (*centre*), felly y mae yn anmhosibl bod cylch, neu amgylchedd gwreiddiol a phriodol i fywyd dyn yn absenoldeb hunan-ymddibyniad, oblegid y mae yn ymgolli yn y lluaws. Y mae Thomas Carlyle yn dyweyd yr hoffai attal y ffrydlif o ddynion yn y Strand, a gofyn hanes ei fywyd i bob dyn. "Ond na," meddai, "nid attaliaf hwynt. Pe buaswn yn gwneyd hyny, mi a gawn allan eu bod fel dëadell o ddefaid, y naill yn canlyn yn llwybr y llall." Y mae hyn yn wirionedd am yr oes bresenol mewn ystyr feddyliol a moesol. Y mae llai o wreiddioldeb yn ysgrifeniadau a gweithiau yr oes hon nag y mae y mwyafrif o ddynion yn feddwl. Nid oes ond ychydig o awduron yn yr oes hon wedi gwneyd nemawr yn rhagor na rhoddi *gwisgoedd newyddion* i *hen* syniadau, a meddyliau, a gwirioneddau. Y mae yr athronydd enwog, J. Stuart Mill, yn ei draethawd ar Ryddid, yn achwyn nad oes un cyfnod yn hanesyddiaeth Lloegr yn cael ei nodi â mor lleied o wreiddioldeb a grym personol a neillduol (*individual originality and force*) â'r presenol. Yn mhob cyfeiriad, canfyddir y tueddiad i soddi y *dyn* yn y *crowd;* ar bob llaw canfyddir cannoedd a allent hòni ac ennill iddynt eu hunain, ac i achos gwirionedd a dyngarwch, sefyllfa anrhydeddus a dylanwadol, yn cymeryd eu llywodraethu a'u harwain gan arwireddau (*maxims*) ac arferiadau rhai ereill.

Y mae pethau mawrion y byd wedi eu cyflawni gan bersonau—personau yn gweithredu yn hunan-ymddibynol. Y mae diwygiadau mawrion cymdeithasol, moesol, a chrefyddol, wedi dechreu mewn calonau unigol. Y mae gorchestweithiau rhyfeddol wedi eu cyflawni gan bersonau unigol: Moses yn gwaredu plant Israel o gaethiwed yr Aipht; Wycliffe yn cyfieithu y Beibl; Galileo yn cael allan y ffordd i ddeongli deddfau y bydysawd; Pym yn achub ac amddiffyn rhyddid Lloegr; Knox yn gwaredu yr Alban oddiwrth ei gelynion Eglwysaidd; Garibaldi yn rhyddhau yr Eidal oddiwrth drais a gormes Babaidd.

Y mae o bwys mawr i ddyn ieuanc i fod yn ofalus iawn yn newisiad ei lyfrau. Y mae tueddiad naturiol i'r meddwl; ond nid ydym yn meddwl fod chwaeth yn beth naturol, hyny yw, fod y meddwl o unrhyw angenrheidrwydd gwreiddiol yn fwy tueddol at lenyddiaeth o natur isel, lygredig, a gwael, nag ydyw at lenyddiaeth o natur uchel, ddiwair, a dilwgr. Y mae rhyw dân yn y meddwl dynol yn debyg i'r tân mae y Persiaid yn losgi yn y mynyddoedd—y mae yn llosgi ddydd a nos, ac y mae yn anfarwol ac anniffoddadwy. Y mae yn rhaid iddo weithredu ac ymborthi ar rywbeth, ac fe fydd y blŷs yn cyfateb i natur yr ymborth y mae yn ymborthi arno. Y rheswm fod yr oes bresenol mor arwynebol a llygredig yw, fod ei thueddiad a'i chwaeth at yr hyn a elwir yn "*light literature*." *Novel reading* yw melldith fwyaf yr oes bresenol. At y fath weithiau ac at eu mawrygwyr y gellir cymhwyso geiriau y prophwyd,—"Ymborthi ar ludw y mae; calon siomedig a'i gŵyrdrodd

ef, fel na waredo ei enaid, ac na ddywedo, Onid oes celwydd yn fy neheulaw?" Y mae miloedd o enghreifftiau i'w cael ag sydd yn dwyn tystiolaeth i'r ffaith mai canlyniad naturiol darllen ac ymhyfrydu gormod mewn gweithiau o'r fath a nodwyd yw meddwl gwan a chalon lygredig.

Y mae yn beth pwysig iawn i ddyn ieuanc i wrteithio a meithrin arferion gweithgar a llafurus. Nid oes dim yn fwy effeithiol i gymhwyso dyn at orchwylion a dyledswyddau y bywyd. Mae y geiriau hyny yn wirionedd am y rhan luosocaf o blant dynion,—"Trwy chwŷs dy wyneb y bwytâi fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear." Y mae urddas mewn gwaith. Gwaith yw rheol a deddf y greadigaeth. Y mae pob peth yn gweithio. Nid yw dyn i fod yn eithriad. Mae y rheol hon yn dyner a charüaidd iawn. Mae gogoniant y natur ddynol yn sylfaenedig ar ymdrechiadau bywiog a gweithgar. Y mae rhinweddau moesol dynion yn ymddibynu, i raddau helaeth, ar eu gweithgarwch, eu diwydrwydd, a'u hanturiaeth. Segurdod yw magwrfa troseddau ac annuwioldeb. Segurdod yw y maes yn yr hwn mae "y gelyn yn hau efrau tra mae dynion yn cysgu." Y mae segurdod yn llygru dynion a theyrnasoedd. Fe lygrodd Sodom, Ninefeh, a Babilon, Groeg a Rhufain. Y mae yn andwyad y cyfoethog, yn ddystryw y masnachwr, a melldith y tlawd. Y mae gweithgarwch nid yn unig yn nodded ac amddiffyn i rinwedd, ond hefyd yn cadw a diogelu iechyd. Yn yr hinsoddau hyny ag y mae y ddaear yn rhoddi ei chynyrch heb nemawr o'i gwrteithio a'i llafurio, mae cyfnod y bywyd dynol yn fyrach, ac iechyd yn fwy diffygiol. Y mae dynion yn fwy iach a dedwydd, a'r oes yn hŵy, fel rheol, yn y cylchoedd tymherus, er eu llafur ychwanegol, nag ydynt yn y poethgylchoedd.

Y mae yn annhraethol bwysig i ddyn ieuanc i wrteithio a meithrin egwyddorion cyfiawn a theimladau hynaws a haelionus. Hyn sydd yn cyfansoddi gwir ogoniant pob bôd moesol. Pan atolygodd Moses ar yr Arglwydd i ddangos iddo ei *ogoniant*, efe a ddywedodd, "Gwnaf i'm holl *ddaioni* fyned heibio o flaen dy wyneb." Y mae dedwyddwch penaf dyn yn deilliaw o wneuthur cyfiawnder a gweithredu haelioni a charedigrwydd. Mae y natur ddynol yn gwrthdaro yn erbyn anghyfiawnder, ac yn edrych gyda dirmyg ar y dyn hunanol sydd yn wastad yn trysori cyfoeth, ond byth yn cyfranu; mor chwannog a thrachwantus â'r môr, ac eto mor anffrwythlawn â'r traeth. Y mae dedwyddwch, tangnefedd, a bri anfarwol yn etifeddiaeth naturiol i'r hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, ac yn gwneyd angylion trugaredd o'i deimladau a'i feddyliau, trwy eu danfon ar negesau haelionus, trugarog, a charedig at ereill.

Mae yr hyn a ddywedwyd yn dangos y pwysigrwydd mawr sydd mewn iawn dreulio boreu oes. Y mae camddefnyddio boreu oes yn annhraethol fwy na cholled o amser. Mae yn beth pwysig i gamddefnyddio unrhyw gyfnod o'r bywyd; ond y mae camddefnyddio boreu oes nid yn unig yn gamddefnydd o amser, ond hefyd yn tòri ymaith welliantau sylweddol y bywyd. Gellir ffurfio rhyw ddirnadaeth o hyn wrth ddychymygu y golled fuasai y flwyddyn yn gael trwy gymeryd ymaith y gwanwyn!

Y mae dynion yn gosod pwys mawr ar brydnawn bywyd; ond y boreu sydd yn bwysig! Y mae dynion yn hyawdl a barddonol wrth draethu ar fachludiad haul, ond nid felly ar godiad haul. Y mae gan

y gorllewin lawer o *laureates*, ond nid oes ond ychydig gan y dwyrain. Mae prydnawn y bywyd yn ymddibynu ar foreu y bywyd. Iawn dreulio boreu oes a wna brydnawn y bywyd yn hyfryd a dysglaer, a'r ymadawiad yn ogoneddus fel machludiad haul.

Nid yw bywyd daearol dyn ond megys *boreu oes*. Nid yw eto ond megys yn mabandod ei fodolaeth. Diwrnod tragywyddoldeb yw *gwir oes* dyn!

MELANCTHON,
Sef, R. Simpson, Llanbedr.

DYSGYBLAETH EGLWYSIG.

Os ydym o'r farn y dylai fod genym fath o ddysgyblaeth eglwysig yn ein cynulleidfäoedd, iawn fyddai i ni fabwysiadu yr un hòno a fyddai yn cydredeg oreu âg *amcan* yr Eglwys Gristionogol ei hunan yn ei hymdrechion i ddwyn oddiamgylch yr hyn oedd mewn bwriad gan ei Sylfaenydd.

Pa beth ddylid olygu wrth Eglwys Gristionogol? Pe byddai y cwestiwn hwn i gael ei benodi yn bwnc un o'n cynadleddau blynyddol neu chwarterol, tebyg y byddai gwahaniaeth barn yn ei gylch. Yn ol fel y medraf fi ddeall wrth Eglwys Gristionogol, yr wyf yn ystyried mai cymdeithas o ddynion yw yn proffesu Crist—yn proffesu ei ddilyn mewn barn ac ymarferiad—yn ei gymeryd fel y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd, ac mai ei hamcan yw sicrhau i ddynion eu dedwyddwch, trwy eu tywys ar hyd llwybrau gwirionedd a rhinwedd. Dywedwn weithiau fod genym ni fel Cristionogion *uwch* amcan na'n dedwyddwch ein hunain, yn nghydag eiddo ein cyd-ddynion. Gadawer i hyny fod, a goreu i gyd po uwchaf a theilyngaf fyddo ein hamcan, ond i ni beidio amcanu at ddim sydd yn anmhosibl i ddynoliaeth, hyd yn nod yn ei hagwedd berffeithiaf. Wedi'r cyfan, efallai y caem, trwy hunan-ymholiad onest, er yn awr ac yn y man yn tybied ein bod megys eryrod yn ehedeg yn uchel, nad ydym yn y diwedd amgen nag ymlusgiaid ar wyneb y ddaear, yn chwilio ac yn ymdrafferthu am beth mor wael â dedwyddwch, a hyny hwyrach ar hyd llwybrau dreiniog gwirionedd a rhinwedd.

Rhaid i bob cymdeithas fod yn *unol* cyn y gallo ddysgwyl llwyddo mewn dim. Er sicrhau undeb mae yn ofynol cytuno ar reolau â pha rai y mae yn rhaid i bob aelod gydymffurfio tra y parhaont i fod yn rheolau y gymdeithas. Rhaid hefyd fod y rheolau y *fath* ag y gallo pob aelod eu cadw yn galonog oddiar argyhoeddiad o'u priodoldeb a'u defnyddioldeb tuag at ddwyn oddiamgylch ei ddaioni personol ei hun, yn nghydag eiddo'r cyffredin. Mewn ystyr gymhariaethol, gelwir y Cristionogion yn "gorff Crist." Cyn gweithio yn hwylus a llwyddiannus, yn nerthol ac effeithiol, mewn unrhyw amgylchiad ag a fyddo yn gofyn hyny, rhaid fod holl aelodau y corff mewn *cydweithrediad* ewyllysgar a gwresog. Wrth ymdrechu am y gamp mewn rhedegfa, ni byddai neb mor ffol â chylymu un o'i goesau, ac felly i dori'r cysylltiad sydd rhwng yr ewyllys a'r ysgogiad. Yr un modd y mae yn angenrheidiol fod holl aelodau corff Crist yn cyd-ewyllysio ac yn cyd-weithio gyda'r iawn-drefniad mwyaf yn yr eglwys.

Rheolau *syml*, *dealladwy*, ac eithaf *adnabyddus* i bawb o'r aelodau

ydynt unig rwymynau undeb mewn cymdeithas, yn dwyn pawb i gyd-ymdeimlad â'u gilydd, ac i ufudd-dod i'r un ewyllys gyffredinol, yn effeithiol i gynyrchu ysgogiad, gweithrediad, a llwyddiant mewn unrhyw a phob rhyw anturiaeth o eiddo'r corff cymdeithasol. Felly holl reolau yr Eglwys Gristionogol ddylent fod i'r eithaf yn *syml ac hawdd eu deall*, nes y byddo holl aelodau corff Crist yn alluog i roddi ufudd-dod ewyllysgar iddynt, a thrwy hyny i gyd-weithio mewn pob achos perthynol i'r eglwys.

Y mae Crist ei hunan wedi dywedyd yn eglur beth yw yr egwyddor o undeb sydd i fod yn ei eglwys ef yn y gwirionedd goruchel hwnw a ddysgodd, sef, mai "Un Tad sydd i'r Cristionogion oll," ac, mewn canlyniad, eu bod hwythau oll yn frodyr. Ar y tir hwn y mae'r Cristionogion yn gydradd, fel plant yr un tad, a dysgyblion yr un athraw, heb un gwahaniaeth rhwng y naill na'r llall, na phartïaeth i gael ei dangos i un mwy na'r llall. Y mae pob braint yn y gymdeithas yn eiddo un fel y llall; yr un mesur o ryddid a chaethiwed i un fel y llall; yr un gyfraith i gael ei gweinyddu ar y cyfoethog a'r tlawd; deddf fawr cariad yn gwresogi ac yn uno pob calon; a phob aelod yn ymdrechgar i fod o ryw wasanaeth i'r corff. Yr undeb hwn a osodir allan mewn modd tarawiadol yn nammeg y winwydden, o'r hon Duw yw y perchenog, a'r Cristionogion y canghenau. Pob cangen nad yw yn derbyn maeth oddiwrth y winwydden sydd yn gwywo. Pa faint o Gristionogion, fel y mae gwaethaf y modd, sydd ddim amgen na changenau crinion!

Yr egwyddor hon o undeb, sef cariad a brawdgarwch, a ddylai gael ei chadw mewn cof a chyfrif wrth ystyried a threfnu y rheolau angenrheidiol i lywodraethu pob Eglwys Gristionogol. Mewn materion cyffredin rhaid cael undeb ewyllys cyn bo nemawr o lwyddiant, pa faint mwy pan mai yr amcan mewn golwg yw gwirionedd a rhinwedd, cariad a dedwyddwch!—yma dylai'r mil fod yn un. Y DRWG MAWR y dylid gwylio yn ofalus yn ei erbyn—yr arch-ddrwg oddiwrth yr hwn y mae yn deilliaw braidd bob drwg arall mewn cymdeithas, yw *schism*, *heresi*, neu *ymraniad*. Dyma ffynon pob crledigaeth, gormes, drwg-ewyllys, a phob peth niweidiol arall i eglwys Iesu Grist. Er difodi y drygau hyn, a rhwystro eu dychweliad, y mae yn ymddangos i mi ei bod o'r pwys mwyaf i argraffu ar bob meddwl y rheol ragorol hon o eiddo Crist,—*Mai brodyr ydym ni oll, plant yr un Tad, ac y dylai yr hwn sydd fawr yn ein plith fod yn fawr ei wasanaeth hefyd.*

Yn ol yr olwg hon a gymerais ar natur ac hanfodion Eglwys Gristionogol, yr wyf, yn y modd mwyaf gostyngedig ac hunan-ymwadol, yn unol â chais amryw o'm cyfeillion, yn cynyg y rheolau a ganlyn i sylw ac ystyriaeth ein cymlleidfaoedd, fel, yn ol yr ymddengys i mi, y cyfryw ag sydd yn cydweddu oreu âg yspryd crefydd Crist. Efallai na chânt gymeradwyaeth; boed felly. Y mae'r cynyg, yr wyf yn credu, yn gam yn yr iawn gyfeiriad.

I. Fod pawb ag sydd yn proffesu dilyn Crist mewn athrawiaeth ac ymarferiad yn aelodau o'r Eglwys Gristionogol, a bod iddynt oll, fel cyd-aelodau a brodyr, yr un breintiau. Mat. xxiii. 8—12.

II. Beth bynag fydd y draul angenrheidiol i gynal y gymdeithas, os bydd unrhyw draul o gwbl, fod pawb ag sydd yn cyfranu tuag at y gyfryw draul i gael llais neu *cote* yn ngweinyddiad y *fund* a wneir i fynu

o'r cyfraniadau cyffredin—fod i bawb ag sydd yn talu i gael pleidleisio pa fodd y mae'r arian i gael eu defnyddio.

III. Os ystyrir fod gweinidog o ryw ddefnydd fel un i flaenori yn ngwasanaeth crefyddol y bobl, ac i esponio yr Ysgrythyrau iddynt; ac os yw'r gweinidog i dderbyn rhywbeth am ei wasanaeth gan yr eglwys, yna fod y mwyafrif o'r rhai sydd yn cyfranu tuag at ei gynaliaeth, ac heb aml esgeuluso eu cydgynulliad, i gael dewis eu gweinidog. Ond pan y mae'r lleiafrif yn *fawr*, fel y mae yn damweinio weithiau, dylai y mwyafrif, mewn doethineb, gymeryd sylw o hyn o amgylchiad.

IV. Er rhagflaenu unrhyw ddylanwad anmhriodol, (oblegid gall hyn gymeryd lle hyd yn nod yn y gymdeithas oreu,) gwell yw cael *vote by ballot*. Mewn mater o ryw elw personol, perthynas, neu gyfeillach, nid oes dim yn fwy diogel a heddychol na phleidlais ddirgel.

V. Pan y mae unrhyw achos perthynol i'r gymdeithas i gael ei drafod a'i benderfynu, dylai rhybudd priodol ac amserol gael ei roi yn y capel, neu unrhyw fan cyfleus arall lle y mae'r oll o'r aelodau debycaf o gael gwybodaeth o'r peth.

VI. Mewn achosion nad oes un traul yn perthyn iddynt, y mae y mwyafrif o'r aelodau ag sydd yn cadw eu cydgynulliad yn rheolaidd i gael penderfynu. Ac er mwyn meithrin ac amlygu cariad ac ewyllys da, rhaid ymdrechu hyd y gellir fod pob aelod yn cael ei foddloni, oddi eithr fod ei ddymuniad yn bechadurus, ac yn ymyraeth âg *eiddo rhai ereill*, neu yr hyn y mae ereill wedi talu am dano.

VII. Os gwna aelod mewn unrhyw ffordd geisio *gorfodi* brawd neu frodyr i ddatgan cydsyniad âg unrhyw athrawiaeth neillduol o'r eiddo ei hun; neu os y gwna efe, heb ymgynghori â'r eglwys mewn cyfarfod rheolaidd, gyflawni unrhyw weithred berthynol i'r aelodau *gyda'u gilydd fel corff*, neu yn erbyn llais y mwyafrif o honynt, y mae'r aelod hwnw, trwy ymddwyn felly, yn diaelodi ei hunan, ac nis gellir ymddiried iddo unrhyw swydd fel aelod: y mae wedi tòri ei hunan ymaith oddiwrth gorff y gymdeithas, ac y mae i'w ystyried fel dyeithrddyn.

VIII. Os yw y mwyafrif o'r aelodau yn chwennych gorfodi y lleiafrif i gynal athrawiaeth nad yw yn dderbyniol ganddynt, y maent, trwy hyny, yn peri i'r lleiafrif ymadael,—y maent yn eu tòri ymaith; ac nid yw y mwyafrif yn frodyr Cristionogol, ond rhwygwyr yr eglwys ac anghristiau.

IX. Pan y mae un neu ragor o'r aelodau weithiau yn hapio bod yn absenol o'r addoliad, ac wedi bod felly am gryn amser, dyledswydd yr eglwys yw edrych i mewn i'r *achos* o hyn; ac os afiechyd, neu ryw amgylchiad anmynunol arall yw yr achos o'r absenoldeb, dyledswydd yr aelodau, y mwyaf cyfleus a chymhwys o honynt, yw ymweled â'r cyfryw mewn cydymdeimlad cariadus â hwynt.

X. Os y gwna un aelod drosedd yn erbyn y llall, y rheol wrth yr hon y mae y sawl fyddo wedi cael ei droseddu i ymddwyn tuag at y troseddwr a welir yn Mat. xviii. 15—17, "Ac os pecha dy frawd i'th erbyn, dôs, ac argyhoedda ef rhyngot ti âg ef ei hun. Os efe a wrendy arnat, ti a ymnillaist dy frawd. Ac os efe ni wrendy, cymer gyda thi eto un neu ddau, fel yn ngenau dau neu dri o dystion y byddo pob gair yn safadwy. Ac os efe ni wrendy arnynt hwy, dywed wrth yr eglwys: ac os efe ni wrendy ar yr eglwys chwaith, bydded ef i ti megys yr ethnig a'r publican."

XI. Pan y mae aelod yn ymddwyn yn annheilwng o'i broffes Gristionogol, yn cuog o ryw bechod neu bechodau ag sydd yn iselu cymeriad yr eglwys, iawn i ryw ddau neu dri o'r brodyr mwyaf dylanwadol o ran eu buchedd a'u sefyllfa, yn ol penderfyniad yr eglwys, fyned i ymddyddan âg ef, ac yn mhob ffordd ddoeth a chariadus ymdrechu ei argyhoeddi a'i ddiwygio.

Gyda golwg ar y sawl fyddo yn euog o ryw drosedd neu droseddau gwaradwyddus, ag nad yw anmherffeithrwydd cyffredin dynoliaeth yn unrhyw esgus drostynt, dylai yr eglwys, mewn rhyw fodd cyhoeddus, ddiarddel y cyfryw un, ond ni ddylid rhwystro ei ddyfodiad i addoliad cyhoeddus, rhag trwy hyny ei ymddifadu o bob moddion edifeirwch ac ymadnewyddiad.

Y mae y rheolau uchod, yn ol fel yr ymddengys i'r ysgrifenydd, wedi eu tynu yn unol âg yspryd cymdeithas Gristionogol yn amser Crist, ac nid yn amser yr apostolion. Yn yr oes apostolaidd yr ydym yn cael fod yr eglwys yn fwy *ffurfiol*, y rheolau yn fwy pendant, swyddwyr neillduol, megys *henuriaid* a *diaconiaid*, yn cael eu penodi, y rhai, yn nghwrs amser, a aethant yn falch a gormesol, a thrwy hyny yn gwneuthur mwy o ddrwg nag o dda. Y mae yr eglwys Gristionogol wedi cael profiad chwerw mai peryglus iawn yw ymddiried i bersonau neillduol unrhyw awdurdod barhaus i drefnu a llywodraethu ei materion a'i hamgylchiadau. Hyn fu yn achos dechreuol y rhwygiadau, yr erledigaethau, a llawer o ddrygau ereill a fuont unwaith yn agos â difodi Cristionogaeth ei hunan. Byddai adferu yr *hen system* o ddysgyblaeth eglwysig, yn yr oll o honi, pe yn ddichonadwy, yn weithred, yr wyf yn lled gredu, o fwy o niwed nag o les, er y dymunwn yn fawr weled rhywbeth yn cael ei wneuthur a fyddai yn gynorthwyol i lwyddiant y gwirionedd, rhinwedd, a dedwyddwch gwirioneddol holl ddynolryw. Gan nad pa reolau fyddo yn cael eu mabwysiadu, os mabwysiedir hwynt o gwbl, goreu i gyd pa agosaf y cedwir at symlrwydd crefydd Crist, a pha mwyaf unol y byddont â'r ffaith o'r gydraddoliaeth sydd yn rhwym o fod rhwng holl aelodau Crist. Nid yw y Cristionogion goreu heb ryw wendidau yn perthyn iddynt, heb ryw bechodau yn barod i'w hamgylchu; a dylai bob amser ryw dynerwch gael ei ddangos i wendidau anocheladwy y natur ddynol yn mhob rheol a fyddo yn cael ei dewis, oblegid diau pell yw yr amser eto pan fydd yr Eglwys Gristionogol heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, a phryd y gellir dywedyd am holl ddysgyblion yr Iesu, "Y rhai hyn yw y rhai a ddaethant allan o'r cystudd mawr, ac a olchasant ac a gànasant eu gynau yn ngwaed yr Oen."

Dylaswn, gyda thegwch, fod wedi dywedyd fod y *gweinidogion* yn gystal â'r aelodau, yn awr ac yn y man, yn gofyn cael eu dysgyblu. Nid yn unig y mae yr ysgolheigion weithiau yn afreolus, ond y mae yr ysgolfeistr yn aml yn esgeuluso ei ddyledswyddau; nid yn unig y mae y defaid yn myned ar gyfeiliorn, ond y mae y bugail hefyd ar droion yn anghofio ei waith; a dichon, yn wir, weithiau fod y praidd yn cael eu harwain i ddrygioni gan fugail drwg. Wrth siarad yn nghylch "dysgyblaeth eglwysig," ni fynwn i neb feddwl ein bod ni fel gweinidogion yn *glass* o ddynion perffaith, "yn genedl santaidd ac etholedig, yn freninol offeiriadaeth;" na, y mae ynom ni lawer o bethau sydd allan o le—edrycher yn fanol ar ein hol. Efallai ein bod ni yn aml yn gweled y brych-

cuyn yn llygad rhyw aelod gwan, heb deimlo y trawst sydd yn ein llygaid ein hunain. Y mae llawer meddyg ei hunan yn *afiach*, er ei fod yn ceisio gwella ereill.

Fel aelodau a gweinidogion, y mae arnom ddyledswydd i geryddu a chynghori y naill y llall, ac ymestyn yn y blaen am gamp uchel alwedigaeth Duw—i ymdrechu ymherffeithio at fesur oedran cyflawnder Crist.

Yr ysgrif uchod a ddarllenwyd yn nghyfarfod chwarterol yr Undodiaid yn Aberdâr, Nadolig diweddaf. Nid yw yr awdwr heb fod yn ymwybodus o'r anmherffeithrwydd mawr a berthyn iddi. Gyda golwg ar y *rheolau*, bydded i'r eglwysi eu gadael yn ddisylw, ychwanegu atynt, tynu oddiwrthynt, neu eu diwygio, yn ol fel y byddo eu deall da yn dangos iddynt beth sydd yn iawn ac yn oreu.

Pantydefaid. THOMAS THOMAS.

YMDDYDDANION YR YSGOL SUL.

CRIST A NICODEMUS.

YR ATHRAW.—Mae'r wers heddyw yn Ioan iii. 1—13. Yn awr, gadewch i ni weled pa faint o oleuni a allwn ni ei dderbyn oddiwrth yr adnodau yma. Wel, beth pe dechreuem heddyw gyda chwi, Evan Morris?

E. M.—Mae fy meddwl i yr un peth â meddwl Thomas Jones.

YR ATHRAW.—Oh, Evan, yr un 'stori o hyd; carem i chwi ddyweyd gair bach eich hunan, mor lleied a fynoch, ond iddo fod yn ffrwyth eich sylw eich hunan. Yn anffodus i chwi, heddyw, y mae T. J. eto heb ddyweyd ei feddwl. Darllenwch y geiriau yn ofalus ac yn ystyriol, ac yr ydych yn sier o ffeindio rhywbeth i'w ddyweyd. Fe etyb y gost a'r drafferth i chwi ddarllen y wers yn mlaenllaw ugain o weithiau; a chwi a deimlwch hyfrydwch mawr o fod wedi cael allan eich hunan ychydig bach o ychwanegiad at eich gwybodaeth. Cymerwch hynyna o gynghor yn garedig at eich ystyriaeth; ac yn awr, fe allai y gwna T. J. roddi i ni ei feddwl.

THOMAS JONES.—Ymddyddan sydd yma rhwng Crist a Nicodemus, yr hwn oedd un o benaethiaid yr Iuddewon—aelod o'r Sanhedrim. Y mae yn dra thebyg mai o herwydd ei sefyllfa uchel y dewisodd fyned at yr Iesu *liw nos*. Ni fynai, er dim, fod yn hysbys i fawrion y cynghor ei fod ef yn myned at yr Iesu—dyn o Nazareth, yn Galilea. Pwnc yr ymddyddan yw adenedigaeth; ond y mae'n bur dywyll i mi beth yw adenedigaeth, ac ymddengys fod Nicodemus mewn dyryswch hefyd.

MORGAN JONES.—Wrth adenedigaeth yr wyf fi yn deall "geni drachefn."

E. M.—Yr wyf fi o'r un meddwl â chwi. Adwneuthur peth yw ei wneuthur drachefn, adrodd yw rhoddi drachefn o'r hyn y mae un wedi ei dderbyn.

M. J.—Ymddengys i mi fod un peth ag oedd Nicodemus yn ei ddeall yn dda—y ffaith o fod gwyrthiau yn cael eu cyflawni yn brawf fod Duw yn brosenol gyda'r hwn oedd yn cyflawni y gwyrthiau.

JOB JONES.—Yr ydwyf fi wedi darllen yn rhyw le fod yr Iuddewon yn ystyried nad oedd angen yr adenedigaeth arnynt hwy, am mai plant Abraham oeddynt; mai adenedigaeth gyda nhwy oedd y cyfnewid o fod yn genedlddyn i fod yn Iuddew.

T. J.—Mae rhywbeth yn hynyna. Y mae yn dangos paham y mynai Nicodemus gymeryd geiriau Crist yn llythyrenol. Yr wyf fi eisoes yn Iuddew, ac felly nid y cyfnewidiad o fod yn genedlddyn i fod yn Iuddew mae'n feddwl; ond "pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen?"

M. J.—"Geni o ddwfr," dybygaf fi, yw gwneuthur proffes gyhoeddus, a pheidio dyfod *liw nos*. Nid, "Beth ddywed *dynion?*" ddylai fod gofyniad dyn pan yn ymgymeryd âg unrhyw lwybr o weithrediad, ond, "Beth ddywed *Duw?*"

T. Thomas.—A geni o'r yspryd, yr un peth yw â geni drachefn. Cael yspryd newydd, bywyd newydd; cael cymeriad newydd, cymeriad wedi ei ffurfio trwy y dylanwadau da hyny ar y meddwl, y dylanwadau sydd yn ffynoni oddiwrth Dduw. Yn yr Ysgrythyrau mae pob dylanwadau moesol yn cael eu priodoli i Yspryd Duw. Yspryd yw gwynt, anadl, dylanwad yn gweithredu yn nerthol, ond yn anweledig; ac mewn llawer dull a modd, trwy ei air, a thrwy ei weithredoedd, y mae y dylanwad anweledig yma yn gweithio i ddwyn dyn at Dduw.

T. J.—Yn y "geni o'r cnawd" ynte, mae, feallai, gyfeiriad at ymffrost yr Iuddewon eu bod yn blant i Abraham, ac o herwydd hyny eu bod yn etifeddion yr addewid. Y *cnawd* sydd lygradwy, darfodedig; yr *yspryd* yn bur, yn santaidd, yn ddwyfol, yn dragywyddol. Nac ymffrostier, gan hyny, yn y cnawd; nac ymffrostier mewn bod yn blant i Abraham; oblegid gall Duw o'r meini yma, o'r cŵn yma, o'r cenhedloedd gwrthodedig yma, wneuthur plant i Abraham. Yr oedd Abraham yn burion, ond ni chyfrifir rhinwedd Abraham i chwi. Yr oedd Abraham yn ŵr duwiol, ond ni wna ei dduwioldeb y tro i chwi. Etifeddion yn wir! hollol annheilwng; etifeddion yn ol y cnawd, ac nid yn ol yr yspryd! Mae yn rhaid i ti, Iuddew anwyl, wrth burdeb a daioni personol, ac nid cyfrifol. Na thwyller di, ni watworir Duw. Ni fernir Abraham yn dy le di, na thithau yn lle Abraham. Beth yw yr ymffrostio yma, byth a hefyd, sydd arnom yn ein henafiaid! Mae rhywun wedi dywedyd fod yr hwn sydd yn ymffrostio yn ei henafiaid, yn dra thebyg i'r bytaten, fod y rhan oreu o hono yn y ddaear.

E. M.—Yr wyf fi yn cytuno yn awr â Thomas. Mae wedi siarad, a siarad yn dda. Yr oedd 'nhad yn ddyn enwog yn ei ddydd. Nid oedd neb lawr yn y wlad yn debyg iddo am wneyd pladurian a chrymanau, ac yr oedd ei dad yntau yn well na hyny; ond beth dâl dywedyd, fel y dywedodd Thomas, y maent yn y ddaear.

T. Thomas.—Nid Nicodemus yw yr unig un sydd wedi ymgymeryd â bod yn athraw i'r bobl, heb ddeall yn gyntaf beth sydd ganddo mewn llaw. Mae llawer yn cael eu galw yn athrawon heb erioed fod wedi teimlo pwysigrwydd eu swydd.

Yr Athraw.—Yr ydych chwi, Jenkin Evans, yn fwy distaw nag arfer heddyw. Beth debygwch chwi am y *pethau dwcarol* a'r *pethau nefol* yma?

J. E.—Yr oeddwn i yn teimlo hyfrydwch mawr wrth weled y pwnc yn cael ei gymeryd i fynu gyda chymaint o yspryd. Nid oeddwn yn teimlo awydd am siarad, o herwydd fod llawer yn cael ei ddywedyd nad oeddwn yn cyd-olygu âg ef. Gwell genyf bob amser gytuno nag anghytuno, a gwell genyf fod yn ddystaw na bod dim a ddywedir genyf fi yn achos anghydfod.

Yr Athraw.—Gallaf sicrhau i chwi fod perffaith ryddid i chwi i ddy-

wedyd eich meddwl yma, a pherffaith roesaw, ac na bydd i neb deimlo yn chwith serch i chwi anghytuno âg ef. Ein rheol ni yw rhoddi yr un rhyddid i ereill âg a hawliwn i ni ein hunain; a hawlio i ni ein hunain yr un rhyddid âg a roddwn i ereill.

J. E.—Diolch, ond ni ddywedaf fi ond ychydig bach o eiriau. Yn fy meddwl i, pethau dacarol yw Adenedigaeth a Sanleiddhad, a'r pethau nefol mwy eu pwys yw Prynedigaeth, Iawn, a Chyfiawnhad. Yr hwn nid yw yn credu y blaenaf, pa fodd y dichon efe gredu yr olaf? Ni wna'r tro i chwi, gyfeillion, gymeryd rhyw ffug-ddychymygion, ryw *theories* disail yn lle ffeithiau.

T. T.—Dyna sylw da, yr un olaf yna.

J. E.—Gyda'ch cenad, gwnaf ychydig o sylwadau ychwanegol. Yn (1.) Nid oes genym ni, fel hîl syrthiedig Adda, yr un gobaith ond yn Nghynllun yr Iachawdwriaeth. Y mae dyn, pob dyn, yn llygredig wrth natur. Nid oes ganddo y gydwybod sydd i wahaniaethu da a drwg. (2.) Mae yn rhaid iddo wrth ras. Nid oes obaith heb ras. Fel y mae y dywediad,—"am weithredoedd cyn gras, nid ydym yn amheu nad ocs natur pechod ynddynt." (3.) Y gras hwn, rhodd yr Ysprydd Glân ydyw. Hebddo nid yw dyn ddim. Hebddo ni all dyn ddim. (4.) Cael y gras hwn yw cael diogelwch, perffeithrwydd, iechydwriaeth. Gwell gan hyny nag i ni geisio ymddiried yn ein rhinwedd a'n nerth ein hunain, fyddai aros am y gras hwn. Oddiwrth hyn, chwi a welwch fy mod yn gwahaniaethu yn fawr mewn rhai pethau oddiwrthych. Os oedd rhyddid i mi, rhyddid i mi draethu fy meddwl fy hun oedd.

Yr Athraw.—Gwnaethoch yn iawn i draethu eich meddwl yn ddiofn ac yn ddigêl. Nid ydym ni yn edrych gymaint at undeb syniad ag undeb yspryd. Yr ydym yn dal yn dŷn at ein syniadau ein hunain, ac yn foddlawn i ereill wneuthur yr un peth. Dalied pawb wrth ei biniwn hyd oni chaffo argyhoeddiad gwell, a cheisied pawb gadw undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd. Gyda'ch cenad, âf finau dros yr un llwybr, gan draethu fy meddwl fy hunan. Gair cyffredin yn mhlith yr Iuddewon oedd "adenedigaeth," i ddynodi y cyfnewidiad trwy yr hwn yr acthai y Cenedl-ddyn i dderbyn eu crefydd hwy. Yr oedd y proselyt felly yn dyfod yn "greadur newydd." Mae yn y "pethau dacarol" gyfeiriad at y droedigaeth hon o baganiaeth i Iuddewaeth. Y "pethau dacarol" oedd y defodau a'r seremonïau angenrheidiol i hyny o gyfnewidiad; y "pethau nefol" yw y syniadau mwy goleuedig, mwy ysprydol, sydd gan y Cristion am natur teyrnas y Messiah. Nid oedd Nicodemus yn teimlo angen yr "adenedigaeth," am mai peth i'r Cenhedloedd oedd, ac nid i'r Iuddewon. Ond teyrnas ysprydol yw teyrnas y Messiah, ac y mae telerau derbyniad yr un fath i bawb, i'r Iuddew a'r Cenedl-ddyn, sef genedigaeth o'r yspryd. Rhaid derbyn yr yspryd fyddo yn rhoddi ysgogiad rhinweddol i bob meddwl, gair, a gweithred—yspryd fydd yn helaethu ein hamgyffredion o barthed i'n dyledswydd, dyrchafu ein serchiadau, yn rhoddi nerth i ni i wrthsefyll profedigaethau, ac yn ein hannog a'n calonogi yn mhob da. (1.) Nid yw dyn yn berffaith ddrwg yn fwy nag yn berffaith dda. Math o wëad cymysg o edafedd gwlân a chotwm yw. Da a drwg, goleuni a thywyllwch yn gymysg ydyw. Nid yw yn angel glân y goleuni, nid cythraul perffaith 'chwaith yw. Tipyn o'r ddau yw, fe allai, a'r ddau yn ymorchestu am yr oruchafiaeth. Nid creadigaeth o ddim, gan hyny, yw "adenedigaeth," ond newid yn y

fantol at yr hyn sy dda, troedigaeth o ddrwg i well, cadarnhad a rhoddiad o nerth newydd i'r hedyn o ddaioni sydd yn y dyn. (Marc x. 14, 15; Preg. vii. 29). (2.) Nid yw *dull* gweithrediad yr adenedigaeth yma o angenrheidrwydd yn ddisymwth. Tyfiant graddol yw y newid yma o ddrwg at dda. Gall fod rhai enghreifftiau lle mae dyn yn alluog i nodi yr amser a'r amgylchiad a roddodd y cychwyniad iddo yn ei yrfa foesol, pan y trôdd y fantol o du rhinwedd a daioni. Ond graddol yn y cyffredin yw cyfnewidiadau mawrion; yn raddol y mae goleuni yn canlyn tywyllwch yn myd y meddwl megys yn y byd sylweddol. Pan deflir yr hedyn i'r ddaear, ni ellir nodi allan y fynyd pan y gwna ddangos y llysieuyn. Cofiwn eiriau Crist,—"Yn gyntaf yr eginyn, ar ol hyny y dwysen, yna yr ŷd yn llawn yn y dwysen." (3.) Myn rhai i ni gredu fod y cyfnewidiad mawr yn cael ei ddwyn oddiamgylch trwy *offerynoliaeth* uniongyrchol a goruwch-naturiol yr Yspryd Glân—na ddichon dyn ddim ei hunan. Athrawiaeth y Llyfr Gweddi Cyffredin yw fod pob gweithred cyn gras â natur pechod ynddo, ïe, fod hyd yn nod yr ymdrech, y weddi am gael dianc o'r cyflwr hwnw yn bechadurus. Os na ddichon dyn wneuthur dim tuag at ei adenedigaeth, paham y ceisir cymaint ganddo? paham yr ydys o hyd yn ei annog? Y gwir yw, y mae gan ddyn ei ran yn gystal â Rhagluniaeth yn niwygiad dyn. Sut arall y mae i ni ddeall ystyr dammeg yr hauwr? Y mae ysgrythyr, y mae rheswm, ac y mae bywyd, yn dywedyd y dylai dyn ymdrechu; ac fe fydd i Dduw fendithio ei holl ymdrechion am ddaioni. Nid oes neb nad oes iddo, weithiau, ei awr o ystyriaeth; nac esgeuluser yr awr hòno; na ddiffodder yr yspryd. (4.) Y mae dadl fawr wedi bod gyda golwg ar gyflwr y "dyn newydd." Syrthio oddiwrth ras—beth am hyny? Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio. Genedigaeth y gelwir ef. Y dechreu yw, ac nid y cwblhad o yrfa dyn; y mae bywyd, a'i beryglon, a'i brofedigaethau, eto ar ol. Y mae cam neu ddau, o bosibl, wedi eu cymeryd; ond nid yw gwaith y Cristion, dylanwad yr Yspryd, ar ben. Y mae'r Cristion wedi cymeryd i fyny y groes, ond nid yw eto wedi derbyn y goron. Safwn, gan hyny, ar ein tŵr o wyliadwriaeth—gall y goreu lithro—gall y saint beidio parhau yn ffyddlawn hyd y diwedd—ni ŵyr neb fod iddo berffaith ddiogelwch—ni ŵyr neb fod ganddo nerth digonol i wrthsefyll y brofedigaeth sydd o bosibl wrth y drws. Ond y mae gobaith y da yn gryf, a phob dydd yn cryfhau. Y mae ei hyder yn fawr, ac y mae bob dydd yn myned yn fwy "y gwna ei oleuni ddysgleirio yn fwy-fwy hyd y perffaith ddydd." Y mae'r gloch wedi canu. Gwnawn ddychwelyd at y pwnc eto wythnos i heddyw, os gwelwch yn dda.

A. A. L., *Cofnodydd.*

TIR-YSGRIF MR. GLADSTONE.

(Iwerddon.)

Dichon y dymunai rhai o ddarllenwyr Yr Ymofynydd wybod sylwedd yr ysgrif hon ag sydd yn bresenol o flaen ein Senedd, ac yn dra thebygol o basio trwy y ddau Dŷ heb nemawr o gyfnewidiadau. Meddwl yr ydym mai ei thuedd yw gwneuthur cyfiawnder rhwng perchenogion y tir a'u deiliaid.

Yn y lle cyntaf, rhodda yr ysgrif hon hawl i'r deiliad, os tan rybudd i ymadael â'i fferm, i geisio oddiwrth berchen y tir saith rhent am welliantau, os bydd ei fferm yn cael ei phrisio yn ddim mwy na deg punt i dâl y tlodi. Fferm a brisir yn ddeg punt i dâl y tlodi sydd o ddeutu pedair punt ar ddeg o rent. Os bydd y fferm yn cael ei phrisio o ddeg i hanner cant, bydd gan y deiliad hawl i ofyn pum rhent; o hanner cant i gant, tair rhent; ac o hyny yn mlaen, un rhent. Hyny yw, gan nad faint fydd y gwelliantau a wnaeth y ffermwr, ni fydd ganddo hawl i geisio mwy oddiwrth y perchenog nag sydd yn y raddeg uchod. Dyma brif egwyddor yr ysgrif.

Yn nesaf, bydd yn rhaid i'r deiliad o hono yntau fod wedi talu i fynu ei rent yn llwyr cyn y bydd hawl ganddo i geisio iawndal am welliantau. Os bydd yn ol yn ei rent, colla ei hawl. Dichon ei fod wedi methu talu ei rent am fod y perchen yn gofyn mwy o rent nag yw y fferm o werth; os felly, bydd hawl gan y deiliad i apelio at lŷs a sefydlir yn Dublin i wrandaw a phenderfynu achos o'r fath. Os barna y llŷs fod y rhent yn ormod, ac am hyny na allasai y deiliad ei thalu, bydd yn rhaid i'r perchenog wneyd iawndal iddo am welliantau yn ol y raddeg uchod.

Cynwys yr ysgrif hefyd annogaeth i'r perchenogion i roddi ammod-rwymau o ugain i ddeuddeg ar hugain o flynyddau. Ar ddiwedd yr ammod-rwym ni fydd hawl gan y deiliad i geisio iawndal, os dewisa y perchenog iddo ymadael, oblegid ysryrir ei fod wedi cael gwerth ei arian o'r tir.

Ni rodda yr ysgrif hawl i'r deiliad i roddi y fferm i fynu i arall heb ganiatâd y perchenog, nac i logi *(let)* un gyfran o honi, ond yn unig tŷ a gardd i weithiwr. Pe rhoddai bwer iddo i logi darnau o dir yn erddi i'r tlodion, byddai hyny yn fantais fawr iddynt, ac yn gynorthwy i lawer i fyw. Mae gerddi o'r fath yn lles mawr i dlodion Lloegr yn yr ardaloedd lle mae ffermwyr dyngarol yn gwneuthur y fath gymwynas.

Dichon y bydd i ambell ddeiliad osod arian allan ar y fferm heb fod yn hollol angenrheidiol, megys i adeiladu tŷ hardd, neu dai anifeiliaid rhy gostfawr, ag na fyddo mewn gwirionedd eu heisieu ar y fferm, er mwyn yn unig boddio ei fympwy. Rhaid fod y gwelliantau y fath ag y byddo y fferm yn fwy o werth erddynt, cyn fod hawl gan y deiliad i geisio iawndal. Os bydd amheuaeth ar y pen, y llŷs sydd i farnu.

Dyma brif nodweddiadau yr ysgrif bwysfawr hon, fel y saif yn bresenol o flaen y Tŷ, a meddwl yr ydym y pasia yn y dull y mae. Bydd yn lles mawr i'r Iwerddon, ac yn sicr, mewn amser, o dawelu cynhwrf y wlad. Nid oes dim sydd yn well i gynal heddwch mewn gwlad na chyfreithiau cyfiawn. Ni fydd y wlad hon na Scotland yn hir cyn mynu yr un cyfiawnder rhwng y perchenog a'r deiliad ag y mae'r Senedd yn awr yn ei roddi i'r Iwerddon.

Mae y Gwyddelod, er a wneir iddynt, yn parhau yn derfysglyd a gwrthryfelgar, ac mewn rhai manau o'r ynys mae bywydau dynion o hyd mewn perygl. Nid oes amheuaeth na ddyoddefodd yr Iwerddon lawer o ormes ac anghyfiawnder am hir oesoedd, ond yn awr dymuna ein Senedd ei thrafod fel Lloegr a Scotland, hyny yw, i wneuthur yr hyn sydd iawn trwy ysgubo ymaith hen gyfreithiau gorthrymus, a gwneuthur ereill mwy unol âg arferion a theimladau y genedl. Fel prawf o'r fath ddymuniad o du ein Senedd, y mae wedi symud ymaith yr Eglwys Sefydledig, yr hon a fu yn orthrymus iawn yn y wlad am hir

amser, ac y mae yr ysgrif bwysfawr hon yn sicr o fod yn gyfraith y wlad cyn pen chwech mis. Er hyn oll, mae y Gwyddelod yn anesmwyth. Gellid meddwl nad ydyw yn bosibl eu boddloni. Dichon mai yr ormes y buont dani cyhyd yw yr achos. Bydd y wlad yn hir cyn tawelu, ac y mae y Weinyddiaeth bresenol wedi penderfynu defnyddio mesurau caeth er mwyn diogelu bywydau a meddiannau, hyd nes y dysga y trigolion barchu cyfraith, ac ufuddhau iddi. I'r perwyl hyn mae mesur yn awr o flaen y Senedd. Un llym ydyw, ond nid llymach nag y mae amgylchiadau yn gofyn. Yn ol yr ysgrif, ni fydd i neb yn yr ardaloedd terfysglyd gerdded oddiamgylch ar hyd nos heb roddi cyfrif am yr achos, nac i gadw nac arfau na phowdr yn ei dŷ. Hefyd, yn mha gymydogaeth bynag y cymer mwrdd-dra le, bydd yn rhaid i'r ardal gymeryd ei threthu i wneyd iawndal i berthynasau y llofruddiedig. Hyd yma mae y trigolion wedi dangos tuedd i ddiogelu llofruddwyr; ond bydd y gyfraith newydd yn sicr o gael effaith wahanol. Ychydig fydd yr ardaloedd a ddewisant gymeryd eu trethu er mwyn amddiffyn llofrudd. Nid anhawdd yw rhagweled yr effaith ddymunol a ganlyn y mesur hwn. Dylasai fod y fath gyfraith yn yr Iwerddon er ys blynyddau. Achubasai lawer o fywydau.

Yn awr, pan yn siarad am yr Iwerddon, ni fydd yn ddrwg gan lawer o ddarllenwyr Yr Ymofynydd glywed fod yr offeiriaid Pabaidd yn dechreu colli eu dylanwad ar y werinos. Wedi cael gwared o'r Eglwys Sefydledig, parhau i leihau wna dylanwad yr offeiriaid, wrth bob tebyg. Hi oedd y gelyn cyffredin, ac unai yr offeiriaid a'r werinos i'w gwrthwynebu. O hyn allan hwy fyddant yn fwy parod i gwympo i maes â'u bugeiliaid. Cenedl anesmwyth yw'r Gwyddelod.

YSGRIF ADDYSGIAETH MR. FORSTER.

Y mae yn hyspys i lawer o'n darllenwyr fod ysgrif o'r fath yn bresenol o flaen y Tŷ. Y mae wedi myned drwy yr ail ddarlleniad oddiar nos Wener, Mawrth 18fed. Prif egwyddorion yr ysgrif ydynt y canlynol :—

Bydd i ddirprwywyr gael eu danfon i bob cymydogaeth yn Nghymru a Lloegr i holi i mewn i gyflwr addysgiaeth plant gweithwyr, gyda dyben i sefydlu ysgolion lle gwelir fod eu heisieu.

Bydd i'r holl wlad gael ei rhanu yn ardaloedd ysgol yn y fath fodd ag na fyddo ysgolion yn rhy bell oddiwrth eu gilydd i blant o bump i ddeuddeg oed i gyrchu iddynt.

Bydd Bwrdd Addysgiaeth i gael ei sefydlu yn mhob ardal, a rhoddir hawl iddo i drefnu pob peth yn nghylch yr ysgol, megys adeiladu ysgoldai, apwyntio ysgolfeistri, &c.

Bydd i'r Bwrdd gael ei ddewis yn mhob ardal gan y plwyf-gynghor neu y *vestry*, ac yn y bwrdeisdrefi gan y tref-gynghor neu y *town council*.

Bydd hawl gan y Bwrdd i osod treth ar yr ardal o nid mwy na thair ceiniog yn y bunt yn ol treth y tlodi, er mwyn cynal yr ysgol.

Bydd hawl gan y Bwrdd i benderfynu pa grefydd, neu syniadau pa enwad fydd i gael eu dysgu i'r plant; ond rhoddir hawl i'r rhieni na chymeradwyant y syniadau i gadw eu plant yn ol, ond bydd yn rhaid iddynt yn gyntaf roddi rhybudd ysgrifenedig i'r Bwrdd o'u bwriad. Dyma y peth a elwir Cyfran Cydwybod, neu yn Seisneg *Conscience Clause*.

Bydd hawl gan y Bwrdd hefyd i beri i'r rhieni ddanfon eu plant i'r ysgol.

Hyn, yn fyr, yw cynwysiad yr ysgrif. Yn sicr bydd yn welliant mawr yn y wlad, yn enwedig mewn ardaloedd rhy wan i gynal ysgolion, yn gymaint ag na fydd un ardal mwy heb ysgol ynddi i blant gweithwyr, a hyny am bris rhesymol, neu am ddim os penderfyna y Bwrdd fod y rhieni yn analluog i dalu.

Yn awr, ymddengys i ni fod rhyw bethau yn feiadwy yn yr ysgrif, ac a fydd yn sicr o achosi cynhwrf gwastadol yn rhai ardaloedd. Gobeithio yr ydym y gwellir yr ysgrif yn y pwyllgor. Yn ol fel y mae yr ysgrif yn bresenol, yn llawer ardal y meistr tir, neu y *squire* a'r offeiriad, ac nid y plwyf-gynghor, fydd yn ethol y Bwrdd, oblegid ni feiddiant wneuthur dim yn groes i ewyllys y ddau wr mawr hyny; a'r offeiriad a benderfyna y grefydd, a gwyddom pa grefydd fydd hòno. O ganlyniad, credo yr Eglwys Sefydledig, neu gredo y sawl a feddant y dylanwad mwyaf yn yr ardal, fydd i gael ei dysgu i'r plant, a hyny ar gost yr ardal. Bydd hyn rywbeth yn debyg i'r dreth eglwys a fu yn achos o gymaint cynhwrf. Nid rhyfedd, gan hyny, fod yr offeiriaid yn cefnogi yr ysgrif fel y mae yn bresenol, ac yn canmol y Weinyddiaeth Ryddfrydol a fuont mor elyniaethus iddi ychydig fisoedd yn ol. Y mae yn wir y caniateir i rieni wrthod yr addysg grefyddol os byddant yn dewis; ond pa rieni tlawd a anturiant roddi rhybudd i'r Bwrdd, a thrwy hyny ddigio cymydogion cyfoethog, ar y rhai, o bosibl, y byddant yn ymddibynu am orchwyl o waith. Nid yw y Gyfran Cydwybod ond twyll, ac nid oes neb a ŵyr hyny yn well na'r offeiriaid.

Y gwelliantau canlynol a gynygir gan yr Anghydffurfwyr, ac nid ydym heb obaith y gwrendy Mr. Gladstone ar eu deisebau, oblegid y maent yn eithaf rhesymol a chyfiawn.

1. Fod i'r Bwrdd i gael ei ddewis, nid gan y plwyf-gynghor, ond gan yr holl ardal, a hyny trwy y *ballot*, sef fod llais gan bawb a dalant y dreth i ddewis y sawl sydd i wario eu harian.

2. Fod gwersi crefyddol yr ysgolfeistri i gael eu rhoddi, nid yn oriau yr ysgol, ond naill ai cyn agor yr ysgol yn y boreu, neu ynte wedi gorphen yr ysgol, ac fod hawl gan y rhieni i ddanfon eu plant yno neu beidio, fel y byddont yn dewis, a hyny heb roddi rhybudd i'r Bwrdd.

Symudai hyn bob anhawsdra yn nghylch y grefydd, a rhoddai foddlonrwydd cyffredinol i'r wlad. Nid ydym yn credu fod gan ein cydwladwyr lawer o ffydd mewn ysgolfeistr fel addysgwr crefyddol, mwy nag sydd genym ninau mewn offeiriad fel esponiwr egwyddorion Cristionogrwydd. Am y cyntaf, pe meddai gymhwysderau, mae ganddo ormod o waith arall mewn llaw; ac am yr olaf, mae bydolrwydd cyfundraeth ei Eglwys a chulni crefyddol yn ormod rhwystrau ar ei ffordd i amgyffred ac i deimlo Crist Iesu. Y gyfundraeth sydd yn gwneuthur y dyn, ac nid y dyn y gyfundraeth. Gobeithio y danfona Anghydffurfwyr o bob enwad ddeisebau i geisio gan y Tŷ wneuthur y gwelliantau sydd yn ofynol yn yr ysgrif. Nid oes dim amser i oedi, oblegid dichon y bydd yr ysgrif o flaen y pwyllgor yn gynar yn mis Ebrill, os nad yn gynt.

Mr. Gol.—Y mae braidd yn ddrwg genyf i mi wneyd sylw o'r pwnc yn nghyfarfod Aberdâr, oblegid os na allwn drafod pethau o'r fath mewn yspryd mwynaidd, gwell eu gadael yn llonydd. Dyna fel y deallais i Mr. Thomas, a dyna fel y deallodd am-

ryw ereill ag oeddynt yn bresenol yn y meddwl, a gadael mai yn y corff yn unig yr oeddwn i yn bresenol. Nid oes genyf gof i Mr. Thomas sylwi am rai o'r prophwydoliaethau, fod eu cyflawniad yn mhell yn guddiedig dan lèni oesoedd lawer yn y dyfodiad. Chwi wnaethoch chwi, Mr. Golygydd, sylw o'r fath, ond nid yn gymhwys yn y geiriau hyn. Yr wyf yn meddwl i chwithau hefyd ddeall Mr. Thomas fel y deallais i ef,* onitê pa fodd y gallasech sylwi i Mr. Thomas anghofio dyweyd pa mor bell oddiwrth y drws oedd eu cyflawniad. Yn awr, yn ol llythyr Mr. Thomas, nid oes dim gwahaniaeth rhwng eich golygiadau chwi a'i olygiadau yntau. Yr ydych yn cytuno, a minau gyda chwi. Ond yr argraff wnawd yn y cwrdd ar fy meddwl i oedd eich bod yn gwahaniaethu yn eich golygiadau yn fawr. Nid oes bwriad genyf i gymeryd rhagor o sylw o'r peth. Gan ddymuned pob llwyddiant i'r YMOFYNYDD y terfynaf yr eiddoch, &c.,

UN OEDD YNO.

* Felly y deallasom ni Mr. Thomas; ond dichon i ni ein dau gamsynied.—GOL.

ER COF

Am IDA, *merch* MR. *a* MRS. DARWIN HUMPHREYS,† *Glasgow, yr hon a fu farw Awst* 20*fed*, 1869.

LLAWENYDD yn Ngwynfa! mae croesaw yn nghân
Deng mil o fabanod y nef,
A phob cerub-blentyn yn eirias o dân,
Yn llawen ddyrchafu ei lef:
Un rhagor i gylchoedd y wenfro a ddaeth,
Un rhagor i brofi o'r wledd;
Un rhagor i chwareu ar dywod aur draeth,
Wrth foroedd tragwyddol o hedd;
Un arall i ddawnsio dan laswydd y dail,
I wisgo y wisg sy mor wèn,
A chariad yn sêl ar ei thegwch di-ail,
A'i melyn gydunau yn chwifio i'r nen,
Lle chwery pelydrau yr huan,
A hithau yn loewach,
A'i dwylaw yn wynach
Na gwisg y goleuni ei hunan.

Ei llygaid yn ddysglaer fel gemydd,
Fel cwrel ei gwefus a'i bron,
Ei gruddiau fel gwrid y boreuddydd
Ar fynwes dryloew y dòn;
A chyflym ei thraed fel y ffrydlif a rêd
O'r ffynon mor hoew a glân,
Perleisia, gan chwareu ei hedyn ar led,
A'i cherdd mewn hyfrydwch a gân.

Na wylwch, fy mam a fy nhad,
Ar fynwes fy Iesu mi syrthiais i hûn,
A phan y deffröais, fe wenodd mor fâd,
Nes codais yn gerub mewn yspryd a llun,
Heb ofni na chlefyd, na chlwy',
Na noethni, nac oerni, na phoen,
Yn blentyn bach ieuanc byth mwy,
Uwch henaint ac angeu, mewn hoen,
Yn nghwmni plant serchog mewn hwyl,
Yn cadw tragwyddol ddydd gwyl.

Fy mam a fy nhad, chwi a ddewch eich dau
I ddedwydd anneddle eich plentyn yn glau,
Lle treuliwn ein dyddiau ar diroedd ein Nêr,
Plith engyl yn canu a blodau sy bêr,
Lle brithir y nwyfre gan fflamau o dân
Serenog yn dawnsio i londer ein cân,

† Cymro twymgalon yw Mr. Darwin Humphreys, a mab i'r diweddar Barchedig Mr. Humphreys, gweinidog y Wesleyaid, yn y Wyddgrug. Y mae yn olygydd i newyddiadur galluog er ys blynyddau.—A. R. T.

A cher ei hafonydd mae ffrwythau ar goed,
Nas gwelwyd mewn breuddwyd eu tebyg erioed,
Lle gwena pob gwyneb mewn hedd,
Heb gwmwl i guddio sirioldeb eu gwedd.

Mam, daliwch mewn gweddi o fore hyd nawn,
Pan wêl Ef yn oreu, cyfarfod a gawn;
Gan ofid a galar na lyncer eich bryd,
Mae gofal y nef dros eich plentyn o hyd,
Caf finau freuddwydio
'N eich breichiau chwi eto,
A chwithau 'n fy sïo
A hymnau i huno,
Pêr hymnau, fel emyn cerdd-adar y dydd,
A'n cusan 'madawol yn felus a fydd,
Fel melwlith a gasglodd y gwenyn yn nghyd
O flodau briallu, a gwyddfid,* a rhôs; * *Woodbine.*
Dewch, sychwch bob deigryn, fy mam, daw y pryd
Coronir eich dysgwyl, y derfydd eich nos,
Mynweswch eich plentyn, yn ymyl mae'r dydd,
A mwyach tragwyddol ein cariad a fydd.

Llundain. A. Rhys Thomas.

Y WYNFA SYDD BUR.

Mi geisiaf yn ddyfal y Wynfa sydd bur,
Mae 'mofyn am dani yn fraint;
Fy Ngheidwad a'i prynodd â haeddiant ei gur,†
Yn fythol orphwysfa i'w saint.

Gweddiaf yn daer am yr heddwch a ddyd
Dragwyddol fwynderau a hoen;
Ac yna mi wenaf ar groesau y byd,
A thawel oddefaf ei boen.‡

Mi geisiaf y Wynfa na fachlud ei dydd,
Na sangwyd gan dristwch na braw;
Mae'm ffordd ar y ddaear fel dunos yn brudd,
A gofid ac ofn ar bob llaw.

Mi geisiaf, mi geisiaf wlad dirion fy Nêr,
Lle mae fy anwylion yn byw;

Na raid wrth oleuni na haulwen na sêr,
Ond dysglaer ogoniant fy Nuw.

Mi geisiaf y wenfro drwy rinwedd yr Oen,
A phan âf i mewn drwy y ddôr,
Edrychaf ar amser, a'i gystudd, a'i boen,
Fel hen drugareddau fy Iôr.

Y mwyn gyfeillgarwch, mor siriol ei wedd,
Sy'n lloni cartrefle y dyn,
Addfeda i gariad digymysg a hedd,
Yn ei fro enedigol ei hun.

Mae pob peth y ddaear yn sorod diwerth
Wrth hoenau yr Eden sydd fry;
Drwy ffydd ac amynedd gweddiaf am nerth
I deithio i anedd mor gu.

Llundain. A. Rhys Thomas.

† Gobeithio y goddef yr awdwr genym sylwi yn barchus, mai rhodd Duw yw bywyd tragywyddol, am hyny nid oedd eisieu ei brynu. Nid i brynu y Wynfa â "haeddiant ei gur" y bu farw ein Harglwydd bendigedig Iesu Grist, ond fel y byddai iddo trwy ei adgyfodiad ddwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni. Er hyny, y mae genym lawer o ddiolch i'r awdwr am y llinellau rhagorol hyn, ac yr ydym yn cydymdeimlo âg ef yn hollol, gan obeithio y gwel Duw, o'i gariad, fod yn dda i'w adferyd ef i iechyd. Carem gael rhagor o gynyrch ei awen.—Gol.

‡ Y mae yr awdwr yn ddyoddefydd trwm oddiwrth gystudd er ys blynyddau.

DARLITH.

Nos Lun, y 14eg o'r mis diweddaf, traddodwyd darlith ar "Fywyd a Chymeriad y Gwir Anrhydeddus W. E. Gladstone, Prif Weinidog ei Mawrhydi Breninol, Victoria," yn *Highland Place Chapel*, Aberdâr, gan y Parch. Rhys J. Jones, A.C.

Llywydd y cyfarfod oedd R. Bedlington, Ysw., *Gadlys House*, yr hwn a gyflawnodd ei waith mewn modd meistrolgar. Wedi iddo wneyd sylwadau pwrpasol i'r amgylchiad, galwodd ar Mr. Jones at ei waith. Pan wnaeth ef ei ymddangosiad o flaen yr wrandawyr, y rhai oeddynt yn weddol luosog, yr oedd yn amlwg i'w weled ei fod yn teimlo dipyn yn *nervous*, ac oblegid hyny nid dymunol hollol y syrthiai y brawddegau cyntaf a ddylifodd dros ei enau ar glustiau rhai o'i wrandawyr; ond nid hir y bu cyn cael gwared o'r peth diflas hwnw, *nervousness*; yna daeth i hwyl dda, a pharhaodd ynddi hyd y diwedd. Yr oedd y darlithydd a'r gwrandawyr yn ymddangos yn berffaith hapus. Aeth â ni gydag ef at y man, ac yn ol at yr amser, y ganwyd y dyn mawr a galluog hwn, a sylwodd ar ei ddygiad i fynu; ond ar ei fywyd cyhoeddus fel Seneddwr llygadgraff, doeth, a llwyddiannus, y sylwodd yn fwyaf neillduol, wedi ei etholiad cyntaf i'r Senedd dros Newark, yn y flwyddyn 1833, i lawr hyd ei siarad doniol a dylanwadol ar yr "*Irish Land Question*," cyn ei ddarllen yr ail waith yn

Nhŷ y Cyffredin ryw noswaith neu ddwy cyn traddodi ei ddarlith. Traethodd gyda manylwch ar ei dalentau dysglaer a'i onestrwydd, ei uniondeb a'i ffyddlondeb yn y cyflawniad o'r gwahanol swyddi pwysig y mae wedi bod ynddynt, ac yn neillduol felly yn y swydd wir bwysig y mae ynddi yn bresenol.

Yr oedd yn amlwg i ni ddeall fod y ddarlith wedi costio llawer o lafur i Mr. Jones, ac ymddengys i ni ei bod yn un dda iawn; ac nid rhyfedd, ychwaith, ei bod mor dda, pan ystyriom fod y testun yn nodedig felly.

Nid bob amser y mae darlithwyr yn gwneyd cyfiawnder â'u testunau; ond gwnawd felly ar yr amgylchiad yma. Yr ydym yn gobeithio y ca llawer eto yn ein hardal ni ac ardaloedd ereill y fraint o'i chlywed. Yn ystod ei thraddodiad cafodd Mr. Jones uchel gymeradwyaeth gan y gynulleidfa, yn neillduol felly wedi iddo eistedd i lawr.

Yna awd trwy y seremonïau arferol ar amgylchiadau cyffelyb gan y Parch. E. W. Lloyd, Mr. H. Edwards, Mr. David Evans, Mr. James, a'r Parch. J. J. George.

Ymadawodd pawb wedi cael eu llwyr foddloni.

Yr elw at leihau dyled yr Eglwys Undodaidd yn y Cwmbach. Q.

MARWOLAETHAU.

Tachwedd 18fed, 1869, yn 71 mlwydd oed, Anne Rees, Blaenwaun, Ffinant, Llanwenog, sir Aberteifi. Er yn mhell o fod yn mwynhau iechyd da er ys blynyddau, ni bu ei chystudd olaf ond byr ac ysgafn. Yr oedd yn hen wraig esmwyth a didramgwydd, a bu yn llafurus yn ei dydd dros ei bywioliaeth ei hun a'i theulu. Claddwyd hi yr 21ain canlynol, yn mynwent Capelygroes. Cyflawnwyd y gwasanath angladdol gan y Parch. T. Thomas.

Rhagfyr 3ydd, 1869, o'r *diphtheria*, yn 3 blwydd oed, Rachel, merch James ac Anne Jones, Drenewydd, Llandyssil. Claddwyd hi y Llun canlynol yn Pantydefaid.

Ionawr 13eg, yn 10 mlwydd oed, o'r *diphtheria*, Mary, merch Elizabeth Jones, Pentre Rhydowen, Llandyssil, Ceredigion. Claddwyd hi yn nghladdfa'r Undodiaid, yn Pantydefaid, y Sadwrn canlynol. Ar yr achlysur, pregethodd y Parch T. Thomas.

Chwefror 19eg, yn 84 mlwydd oed, Mrs. Edwards, Gelli, ger Llandyfeilog, sir Gaerfyrddin. Yr oedd hi yn un a berchid yn fawr yn y gymydogaeth, yn Undodwraig selog, ac yn adnabyddus i bawb o weinidogion yr Undodiaid, i ba rai yr oedd groesaw gwresog yn wastad yn ei thŷ.

Chwefror 22ain, yn 80 mlwydd oed, Gwladys, priod Thomas Miles, Drefach, Llanwenog, ac aelod am flynyddau lawer yn Alltyplacca. O ran tymher heddychlon, diwydrwydd, gwirionedd, ac onestrwydd, yr oedd yn siampl.

Mawrth 3ydd, o'r *diphtheria*, yn 11 mlwydd oed, Anne, merch Evan a Mary Jones, Gelligron, plwyf Llandyssil, Ceredigion. Y Sadwrn canlynol, hebryngwyd hi i gladdfa yr Undodiaid, yn Pantydefaid. Y Parch T. Thomas, gweinidog y capel, a bregethodd ar yr achlysur.

Mawrth 5ed, yn 64 mlwydd oed, Howell Morgan, Cross Keys, Cefncoedycymmer, wedi hir gystudd. Yr oedd yn ddyn a berchid yn fawr yn ardal y Cefn, am ei fod yn gymydog i wneyd cymwynas, ac o egwyddorion a dymuniadau da.

Mawrth 10fed, yn 56 mlwydd oed, Sarah, gwraig John Evans, Blaencwrt, Llanwenog, ar ol blynyddoedd o gystudd. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Alltyplacca, lle y cyrchai yn wastad hyd nes y methodd trwy wendid.

Mawrth 15fed, yn 83 mlwydd oed, Margaret Thomas, Abercwmboi-isaf, ger Mountain Ash, Morganwg. Yr oedd yn hen wraig a berchid gan bawb a'i hadwaenai, ac yn aelod o'r eglwys Undodaidd yn y Cwmbach am flynyddau.

Mawrth 15fed, yn 10 mlwydd oed, o'r *diphtheria*, Lewis Thomas, nai Evan a Mary Jones, Gelligron. Claddwyd ef yn Pantydefaid y dydd Iau canlynol. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. T. Thomas.

Mawrth 17eg, yn 2 flwydd oed, Evan, mab David ac Anne Williams, Llanybydder. Claddwyd ef yn Capelygroes, ar yr 20fed canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Thomas.

Mawrth 18fed, yn 52 mlwydd oed, Martha, priod William Thomas, Saer-maen, Pantyronen, ger Llanwnen, Ceredigion. Y dydd Mawrth canlynol, hebryngwyd hi i'r tŷ rhagderfynedig yn mynwent Capelygroes. Ar yr achlysur, pregethodd y Parch. T. Thomas, oddiwrth Iago iv. 13—15.

D. JENKINS, ARGRAFFYDD, HEOL Y WÎG, ABERYSTWYTH.